## CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

## Rhaglen Grant Cyflawni'r Agenda

**Adolygiad o Gyfleoedd Dydd a Gwasanaethau Gofal Seibiant/Seibiant Byr**

# Effaith pandemig COVID-19 ar arloesedd a thrawsnewid gwasanaethau Mai 2023

Awduron: Phill Chick a Paul Pavia Mai 2023

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3
Cydnabyddiaethau ..... 3
Crynodeb Gweithredol ..... 3
Casgliadau ..... 4
Argymhellion ..... 7
Methodoleg ..... 8
Galw am dystiolaeth ..... 9
Materion allweddol a nodwyd yn yr alwad am dystiolaeth ..... 9
Materion allweddol a nodwyd yn ymatebion yr holiadur ..... 11
Digwyddiad cenedlaethol i ymarferwyr ..... 12
Pwyntiau dysgu allweddol ..... 12
Grwpiau ffocws ..... 13
Materion penodol grŵp cleientiaid ..... 14
Ymweliadau a chyfweliadau penodol i'r gwasanaeth ..... 19
Enghreifftiau o arfer arloesol ..... 26
Dyfodol cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr ..... 28
Cyfeiriadau ..... 30

## Cyflwyniad

Gofynnodd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Rhaglen Grant DTG Cyflawni'r Agenda Drawsnewid ar gyfer 2021/22, bod y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru (ADSS Cymru), yn cynnal ymarfer monitro i asesu effaith pandemig COVID-19 (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel y pandemig) ar seibiannau byr, gofal seibiant a gwasanaethau cyfleoedd dydd ledled Cymru.

Cwblhawyd y gwaith hwn ym mis Gorffennaf 2021. Gellir gweld crynodeb o'i ganfyddiadau yn Atodiad I.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad cychwynnol hwn, wrth i wasanaethau adfer o effaith y pandemig, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ADSS Cymru gynnal adolygiad dilynol i asesu i ba raddau mae gwasanaethau wedi trawsnewid ac unrhyw effaith barhaus ar ddarpariaeth gwasanaethau, y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, y rhai sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu comisiynu.

Yn naturiol, mae effaith y pandemig a dyfodol gwasanaethau yn faterion sy'n peri pryder i'r gwleidyddion ar lefelau cenedlaethol a lleol, swyddogion llywodraeth leol, y gweithlu gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau, eu teuluoedd, y cyhoedd yn gyffredinol a'r cyfryngau.

Roedd yr adolygiad i archwilio effeithiau negyddol a chadarnhaol y pandemig a cheisio nodi enghreifftiau nodedig o arfer effeithiol o fewn gwasanaethau.

Mae cwmpas yr adolygiad yn cwmpasu Cymru gyfan. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau adnoddau ac amser, nid oedd yn bosibl adolygu pob awdurdod lleol yn unigol, ac nid oedd yn bosibl ym mhob achos i dynnu data ar wahân ar gyfer pob grŵp cleientiaid. Mae goblygiadau'r cyfyngiadau hyn yn cael eu harchwilio ym mhennod fethodoleg yr adroddiad.

## Cydnabyddiaethau

Rydym ni'n ddiolchgar i'r rhai a ymatebodd i geisiadau am wybodaeth drwy ein holiaduron. Hoffem hefyd gydnabod mewnbwn y rhai a roddodd eu hamser i drafod yn y digwyddiad ymarferydd cenedlaethol rhithwir a sesiynau grŵp ffocws penodol i gleientiaid, gan gynnwys staff gweithredol, grwpiau dinasyddion a'r sefydliadau cenedlaethol sy'n cynrychioli llais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Hoffem hefyd ddiolch i'r holl ddarparwyr gwasanaethau hynny a roddodd eu hamser yn hael yn ystod ein hymweliadau gwasanaeth lle buom yn archwilio'r modelau hynny'n fwy manwl. Yn olaf, rhaid diolch hefyd i aelodau'r tîm prosiect, a grŵp cyfeirio'r prosiect, sydd wedi chwarae rhan mor bwysig wrth gefnogi datblygiad a chyflwyniad y darn hwn o waith.

## Crynodeb Gweithredol

**Diben yr adolygiad**

Mae'r adroddiad hwn yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau wedi'u trawsnewid a sut mae'r pandemig wedi parhau i effeithio ar gomisiynu a darpariaeth gwasanaethau a'r rhai sy'n eu derbyn .

Dyluniwyd yr adolygiad i archwilio effaith y pandemig ar gyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd, er enghraifft i gyflwyno neu gyflymu modelau cymorth newydd i ddiwallu anghenion newidiol unigolion, a bygythiadau, er enghraifft gostyngiad yn lefel y gwasanaethau a ddarperir ac effaith y newidiadau hyn ar ddefnyddwyr bregus a'u teuluoedd.

**Methodoleg yr adolygiad**

Defnyddiodd yr adolygiad ddulliau cymysg. Dechreuodd drwy anfon galwad am dystiolaeth i wasanaethau a holiaduron wedi'u cyfeirio at gomisiynwyr a darparwyr. Dilynwyd hyn gan ddigwyddiad cenedlaethol wedi'i dargedu at ymarferwyr lle rhannwyd y data cychwynnol a gasglwyd gyda chyfranogwyr a oedd yn ceisio nodi dealltwriaeth o'r hyn a oedd wedi galluogi newid a'r hyn a oedd yn rhwystr i drawsnewid.

Yn dilyn y digwyddiad ymarferwyr cenedlaethol, cafwyd cyfres o grwpiau ffocws a sefydlwyd i alluogi ystod o randdeiliaid i gyfrannu at drafodaethau sy'n edrych ar grwpiau penodol o gleientiaid. Yn olaf, cynhaliwyd sawl ymweliad ag ystod o wasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru ac yn cwmpasu'r gwahanol grwpiau cleientiaid sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad.

Defnyddiwyd y data meintiol ac ansoddol a gasglwyd i archwilio ystod eang o faterion a oedd yn amlwg yn ystod y pandemig, ac ers hynny. Mae dadansoddiad o'r data hwn wedi cynhyrchu cyfres o gasgliadau a nifer fach o argymhellion ar gyfer rhanddeiliaid.

## Casgliadau

**Yr angen i adolygu cyfleoedd dydd, gwasanaethau gofal seibiant, a gwasanaethau seibiant byr**

Cyn y pandemig, roedd llawer o asiantaethau wedi nodi'r angen i adolygu ac o bosibl ddiwygio cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr i sicrhau bod model darpariaeth yn parhau i ddiwallu anghenion cyfredol.

Roedd rhai cyfranogwyr yn credu y byddai dadl genedlaethol ar ddyfodol cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr yn helpu i sicrhau newid mawr a chyflym. Roedd rhai o blaid gwerth posibl canllawiau cenedlaethol, tra bod eraill yn teimlo y gallai hyn rwystro mentrau lleol ac arwain at ganlyniadau anfwriadol.

**Effaith y pandemig ar gyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr**

Amharwyd yn ddirfawr ar ddarpariaeth cyfleoedd dydd a gwasanaethau arhosiad byr gan y pandemig.

Gorfodwyd nifer o wasanaethau i gau am gyfnod. Ar ôl ailagor, mae rhai yn cynnig gwasanaeth llai o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig, er enghraifft cynnig llai o sesiynau neu sesiynau byrrach. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw nifer sylweddol o bobl wedi dychwelyd i wasanaethau ers iddynt ailagor, ac mae llawer o rai eraill wedi adrodd ers dychwelyd bod argaeledd gwasanaethau wedi lleihau o ran amlder a hyd yr amser pan fydd y gwasanaeth ar gael.

Roedd y graddau y caeodd gwasanaethau, hyd y cau a chyflymder ailagor yn amrywio ledled Cymru.

Arweiniodd y pandemig at ddiwygiadau hanfodol i ddarpariaeth gwasanaethau o ganlyniad i ofynion cadw pellter cymdeithasol. Roedd rhai o'r newidiadau a gyflwynwyd yn cael eu hystyried cyn y pandemig, a chanfuwyd eu bod wedi cyflymu rhai newidiadau a gynlluniwyd. Wrth adolygu gwasanaethau fe wnaeth rhai asiantaethau ganfod nad oedd adeiladau oedd yn cael eu defnyddio cyn y pandemig yn addas i'r diben wrth symud ymlaen.

Cafodd yr amgylcheddau a'r model gwasanaeth eu cwestiynu hefyd gan rai. Roedd llawer o gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws yn credu y gall gorddibyniaeth ar wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd, h.y., y rhai a ddarperir yn unig neu'n bennaf mewn adeilad neu grŵp penodol o adeiladau, arwain at fodelau 'sefydliadol' a datblygu dibyniaeth ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd.

Disgrifiodd llawer o wasanaethau fwy o ddefnydd o asedau cymunedol yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau lleol a mannau agored. Mae llai o fynediad at drafnidiaeth a ffafriaeth

pobl wedi arwain at y duedd hon yn parhau i lawer. Fodd bynnag, mae niferoedd sylweddol yn dal i ddymuno gweld gwasanaethau'n dychwelyd i'r lefelau oedd yn cael eu cynnig cyn y pandemig.

Mewn rhai achosion, mae'r newidiadau hyn wedi'u cynnal ers i'r gwasanaethau ddechrau ar gyfnod adfer wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

**Pwysau economaidd a phwysau ar y gweithlu**

Gellir mynd i'r afael â rhai o'r galluogwyr a'r rhwystrau a nodwyd gan gyfranogwyr drwy gynllunio effeithiol a rheoli newid, ond mae rhai rhwystrau yn codi o ffactorau strwythurol ac economaidd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu neu gomisiynu'r gwasanaethau. Wedi'u cynnwys yn y rhain mae'r pwysau chwyddiant a brofwyd yn ystod y misoedd diwethaf y teimlir eu bod nhw wedi gwaethygu llawer o'r heriau a wynebir.

Disgrifiwyd heriau'r gweithlu a diffyg cyllid fel pethau sy’n oedi neu’n atal gwasanaethau rhag newid.

Byddai darparu ffrwd ariannu ganolog sy'n galluogi awdurdodau lleol a darparwyr i fod yn bartneriaid cyfartal, yn cynnig cyfleoedd i ysgogi a galluogi trawsnewid i ddigwydd.

Ystyriwyd yn gyffredinol bod y gweithlu yn ased wrth drawsnewid gwasanaethau. Fodd bynnag, nododd gwasanaethau hefyd y gall aelodau o'r gweithlu fod yn rhwystr i newid. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai staff yn yr hyfforddiant rheoli newid a'r hyfforddiant cymhwyso dull sy’n canolbwyntio ar bobl a chyd-gynhyrchu.

**Mwy o gymhlethdod ymhlith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau**

Nododd llawer o wasanaethau gynnydd yn anghenion cymhleth pobl sy'n cael eu cyfeirio atynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith bod gan rai pobl a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cyn y pandemig, anghenion mwy cymhleth wrth iddynt ddychwelyd i wasanaethau wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Mae hyn yn amlwg yn fater pwysig mewn perthynas â threfniadau comisiynu partneriaeth a chyd-gomisiynu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cyflogaeth fel rhan o gyfleoedd dydd**

Codwyd pwysigrwydd cefnogi pobl ag anableddau i gael gwaith cyflogedig gan rai cyfranogwyr yn yr adolygiad; mae ymdeimlad nad yw hyn bob amser yn cael digon o amlygrwydd mewn modelau cymorth, er gwaethaf y manteision amlwg posibl i unigolion a'r gymdeithas ehangach.

Bydd angen cydweithio rhwng gwasanaethau dydd ac asiantaethau eraill, fel busnesau a gwasanaethau cyflogaeth ac addysg, i ddarparu cyfleoedd o'r fath yn effeithiol. Bydd rolau sy'n gallu llywio pobl drwy'r gwahanol lwybrau a ffrydiau cyllido i gael cyflogaeth â thâl yn bwysig.

Dylai cyfleoedd cyfartal gael eu cymhwyso'n ehangach gan gyrff sector cyhoeddus a'u hyrwyddo mewn sectorau eraill i sicrhau bod sgiliau a galluoedd pobl ag anableddau yn cael eu cydnabod ac y gall y bobl hyn gyfrannu at yr economi leol.

Gall adnoddau fel cyllid Mynediad at Waith hwyluso gwelliannau yn y maes hwn .

**Dulliau both ac adain**

Mae dulliau both ac adain a fabwysiadwyd mewn gwahanol feysydd yn cynnig dulliau cyfunol defnyddiol sy'n cyfuno cymorth yn y ganolfan, mynediad at gyfleusterau cymunedol a'r defnydd creadigol o dechnoleg i wella mynediad a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion.

**Technoleg a thrafnidiaeth**

Pan gaewyd gwasanaethau, cynyddodd y defnydd o dechnoleg, yn enwedig fideo-gynadledda a chynadledda ffôn, yn aruthrol. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd a galluogi pobl i ddatblygu a chynnal eu rhwydweithiau eu hunain gan ddefnyddio grwpiau sgwrsio a gweithgareddau rhithwir eraill. Roedd hefyd yn cynorthwyo cyfathrebu rhwng ac o fewn y gwasanaeth.

I rai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a rhai staff, roedd defnyddio technoleg ddigidol yn her, oherwydd sgiliau TG gwael a mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at offer a/neu'r rhyngrwyd.

Cafodd trafnidiaeth a ddarparwyd gan wasanaethau ei leihau'n sylweddol yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn arbennig o heriol i'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau gwledig. Adroddwyd bod rhai darparwyr wedi lleihau'r defnydd o drafnidiaeth ac yn parhau i hyrwyddo mynediad at wasanaethau yn nes at adref. Mae hyn yn bennaf oherwydd dewis rhai o'r rhai sy'n mynychu gwasanaethau, pwysau costau cynyddol sy'n deillio o chwyddiant tanwydd, yn ogystal â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd.

**Cyfleoedd dydd fel gofal seibiant i aelodau'r teulu**

Thema a gynhaliwyd drwy'r adolygiad oedd cydnabod bod cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr yn aml o fudd i dderbynnydd y gwasanaeth a'u teuluoedd. Fodd bynnag, pan fydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar gyfer unigolion, gall tensiwn godi yn aml rhwng buddiannau'r unigolyn a'u gofalwyr di-dâl o ran sut y bwriedir darparu'r gwasanaeth hwn. Mae'n bwysig cydnabod bod yn rhaid i ddymuniadau'r unigolyn a aseswyd ddod yn gyntaf a phan nad oes gan yr unigolyn hwnnw alluedd, yna rhaid i benderfyniadau fod er budd gorau'r unigolyn a rhaid i'r trefniadau hynny fod lleiaf cyfyngol â phosibl.

**Pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyd-gynhyrchu gwasanaethau**

Wrth gyflwyno a gwerthuso newidiadau i wasanaethau, mae llawer o asiantaethau'n cydnabod pwysigrwydd cynllunio a chyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae ymdeimlad clir bod dulliau o'r fath yn sylfaenol i ddiwygio gwasanaethau effeithlon ac effeithiol.

Dylai egwyddorion cyd-gynhyrchu hefyd fod yn berthnasol i gynllunio, darparu ac adolygu modelau gwasanaeth strategol.

Nid yw cyd-gynhyrchu a chanolbwyntio ar y person bob amser yn cael eu deall na'u cymhwyso'n effeithiol gan wasanaethau a'u staff. Mae angen hyfforddiant a datblygiad priodol i fynd i'r afael â hyn.

**Effaith y pandemig ar economi gymysg darpariaeth gofal**

Mae effaith y cyd-destun ariannol presennol ar roddion yn fygythiad dirfodol i nifer o asiantaethau trydydd sector sy'n ddibynnol neu'n rhannol ddibynnol ar roddion elusennol.

**Comisiynu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant sy'n addas ar gyfer y dyfodol**

Er bod amrywiaeth y ddarpariaeth gwasanaeth wedi gwella, adroddir bod lefelau'r ddarpariaeth wedi gostwng yn dilyn y pandemig. Fodd bynnag, roedd y tîm adolygu yn ei chael hi'n anodd mesur y gostyngiad hwn yn y ddarpariaeth oherwydd diffyg data meintiol safonol oedd yn cael ei baratoi'n gyson ar ddarparu a defnyddio gwasanaethau.

Mae angen mwy o gydweithio o fewn, a rhwng asiantaethau, i gomisiynu ystod o gefnogaeth sy'n cynnwys adnoddau cymunedol y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi dilyniant i gyflogaeth â thâl.

Mae'r angen am gydweithio yn arbennig o hanfodol wrth i bobl symud trwy wahanol gyfnodau yn ystod eu bywyd. Er enghraifft, wrth adael yr ysgol neu'r coleg, symud i wasanaethau sy'n addas ar

gyfer oedolion ifanc, neu'r rhai sy'n addas ar gyfer oedolion hŷn yn ddiweddarach. Er mwyn osgoi tarfu diangen ar fywydau pobl, mae rhai gwasanaethau wedi dechrau defnyddio dull pob oedran, yn seiliedig ar angen unigol, nid oedran cronolegol.

Nodwyd modelau o arfer effeithiol yn yr adolygiad. Gellir dysgu drwy archwilio'r hyn mae'r gwasanaethau hyn wedi'i gyflawni a sut y gwnaethant hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod na fydd dyblygu modelau o'r fath yn uniongyrchol i feysydd eraill bob amser yn briodol; er enghraifft, gall rhai dulliau fod yn fwy addas ar gyfer amgylcheddau trefol yn hytrach na gwledig. Bydd efelychu modelau presennol mewn ardal wahanol bob amser yn gofyn am gynllunio a rheoli newid yn effeithiol.

Roedd rhai cyfranogwyr yn credu bod y ffaith nad yw cyfleoedd dydd a rhai gwasanaethau seibiant byr yn cael eu rheoleiddio yn amhriodol ac y gall hyn roi'r gwasanaethau hyn dan anfantais.

**Yr angen am ymgysylltu effeithiol**

Er mwyn cynyddu'r defnydd o gyfleusterau cymunedol lleol, nododd y gwasanaethau y bydd angen ymgysylltu'n well â chymunedau lleol ac arweinwyr cymunedol. Mae enghreifftiau o'n hymweliadau gwasanaeth lle mae hyn wedi gweithio'n dda.

Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y rhai sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau a'u teuluoedd, yn cymryd rhan lawn yn y prosesau asesu, cynllunio, darparu ac adolygu, yn enwedig pan gynigir newidiadau i natur y ddarpariaeth.

**Galluogwyr a rhwystrau arloesedd**

Adroddodd rhai cyfranogwyr fod y pandemig yn dangos y gellir gwneud newidiadau heb gymhwyso biwrocratiaeth neu brosesau gormodol. Arweiniodd yr angen i wneud newidiadau cyflym at ymdeimlad o 'ganiatâd' i gymryd risgiau cadarnhaol a chyflwyno modelau creadigol. Mae hyn yn darparu cynsail ar gyfer datblygu gwasanaethau mwy ystwyth wrth symud ymlaen.

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r rhwystrau a'r galluogwyr i ddiwygio gwasanaethau a nodwyd yn yr adolygiad. Roedd y rhai sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc yn teimlo nad oedd yr iaith a ddefnyddiwyd, a materion a nodwyd, bob amser yn berthnasol i'w hardal. Yn unol â hynny, mae'r adroddiad wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion a'r gwasanaethau hynny sy'n benodol i blant a'u teuluoedd.

## Argymhellion

1. Dylai comisiynwyr a darparwyr ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi cynllunio, darparu a thrawsnewid gwasanaethau. Dylid adlewyrchu'r dulliau hyn hefyd mewn prosesau cynllunio gofal i sicrhau dewis, rheolaeth ac opsiynau creadigol i'r unigolyn. Dylai cyd-gynhyrchu fod yn sail i bob dull.
2. Dylai adolygiadau gwasanaeth s'n cael eu cynnal gan gomisiynwyr a darparwyr ystyried potensial dull both ac adain a dull pob oedran, sy'n defnyddio gwasanaethau cymunedol lleol, mannau agored ac adnoddau lleol eraill.
3. Dylai awdurdodau lleol, ynghyd â sefydliadau partner, adolygu darpariaeth gwasanaeth a datblygu strategaethau comisiynu ar gyfer darparu cyfleoedd dydd lleol a gwasanaethau seibiant byr. Dylai'r rhain nodi cyfleoedd ar gyfer dull rhanbarthol o gomisiynu a darparu gwasanaethau. Ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, dylid ystyried a chydnabod menter polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu elw mewn unrhyw gynllunio yn y dyfodol .
4. Dylid ystyried galluogi pobl i gael gwaith â thâl fel canlyniad i unigolion a rhoi mwy o bwyslais ar sut y gellid cyflawni hyn. Dylai awdurdodau lleol a'u hasiantaethau partner ystyried sut y gallant helpu i gael gwared ar rwystrau i gyflogaeth. Gellir cyflawni hyn drwy godi dyheadau i gael gwaith gyda'r unigolyn a'i deulu yn gynnar. Dylid ystyried sut y gall Awdurdodau Lleol a'u hasiantaethau partner gyflogi pobl eu hunain yn uniongyrchol. Dylid datblygu a meithrin perthnasoedd gyda gwasanaethau cyflogaeth a chyflogwyr yn y gymuned ehangach, i feithrin llwybrau gyrfa amgen y gellir eu llywio.

5. Ar draws y sbectrwm o gomisiynu a darparu gwasanaethau, dylid datblygu strategaethau i gynnwys hyfforddiant a datblygiad priodol i'r gweithlu i gynorthwyo recriwtio, cadw, arloesi a gwella gwasanaethau.
6. Dylid optimeiddio'r defnydd o dechnoleg ddigidol i wella gwasanaethau a hwyluso cydweithredu rhwng asiantaethau.
7. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o gyllid presennol, megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, i gefnogi trawsnewid ac arloesi yn y maes hwn ac archwilio'r potensial ar gyfer cyllid cyfalaf a refeniw pwrpasol at y diben hwn. Gallai hefyd archwilio sut y gellid cyflawni rhannu pŵer yn gyfartal wrth ddyrannu arian, rhwng yr holl randdeiliaid.

## Methodoleg

Roedd cwmpas yr adolygiad yn eang iawn, gan gwmpasu ystod eang o grwpiau cleientiaid a phob ardal awdurdod lleol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys darpariaeth awdurdod lleol (y cyfeirir ato'n aml fel 'darpariaeth fewnol') yn ogystal â gwasanaethau a gomisiynwyd gan ddarparwyr allanol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y cyflwyniad, oherwydd cyfyngiadau adnoddau ac amser, nid oedd yn bosibl adolygu pob awdurdod lleol yng Nghymru yn unigol, ac nid oedd yn bosibl ym mhob achos i dynnu data ar wahân ar gyfer pob grŵp cleientiaid.

Mae'r adroddiad yn nodi amrywiadau ar draws gwahanol rannau o Gymru, er enghraifft mewn perthynas â chyflymder neu i ba raddau mae gwasanaethau dydd yn ailagor a sut roedd hyn yn wahanol ar draws y sectorau statudol a'r trydydd sector.

Er bod llawer o faterion yr adroddwyd amdanynt oedd yn gyffredin i bawb, roedd eraill yn fwy penodol i ardaloedd daearyddol, grwpiau cleientiaid ac mewn rhai achosion unigolion.

Mae'r awduron wedi ceisio gwneud y gwahaniaethau hyn yn glir drwy'r adroddiad ac wrth ddod i gasgliadau rhoddwyd mwy o bwyslais ar y profiadau hynny a ddaliwyd ac a adroddwyd amdanynt amlaf wrth adlewyrchu materion a godwyd yn llai aml.

Er mwyn ennyn barn yr ystod eang o randdeiliaid, defnyddiwyd dulliau cymysg. Dechreuodd yr adolygiad gyda galwad am ddosbarthu tystiolaeth drwy awdurdodau lleol, i nodi gwasanaethau a datblygiadau a fyddai'n llywio amcanion y prosiect a rhoi ffocws i linellau ymholi. Roedd yr alwad am dystiolaeth hefyd yn gofyn am wybodaeth am unrhyw adolygiadau ffurfiol a gynhaliwyd gan wasanaethau yn y cyfnod yn dilyn cam cychwynnol y gwaith a wnaed yn 2021/22, yn ogystal â datblygiadau nodedig wedi'u gweithredu ers y pandemig. Datblygiadau o'r fath oedd canolbwynt ymweliadau safle, y darperir manylion amdanynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Nid lwyddwyd i ymweld â phob ardal lle nodwyd datblygiadau o'r fath. Fodd bynnag, fe wnaethom geisio sicrhau lledaeniad daearyddol a sylw i bob grŵp cleientiaid sy'n cyrchu gwasanaethau cyfleoedd dydd.

Yn seiliedig ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a grŵp cyfeirio'r prosiect, lluniwyd holiaduron i gasglu tystiolaeth gan gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau. Cynlluniwyd yr holiaduron i gasglu data meintiol ac ansoddol. Ceisiodd y broses o gasglu data meintiol nodi i ba raddau yr oedd y pandemig wedi effeithio ar gapasiti gwasanaeth; yn benodol, a oedd mwy neu lai o wasanaethau ar gael ac a oedd y gwasanaethau hynny wedi cynyddu neu leihau argaeledd y cymorth a gynigiwyd i unigolion a theuluoedd.

Roedd y data ansoddol yn ceisio casglu barn comisiynwyr a darparwyr ar ddarparu gwasanaethau; sut roeddent wedi ymdopi yn ystod y pandemig ac, ar ôl llacio'r cyfyngiadau, sut roeddent yn ailsefydlu gwasanaethau yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig.

Ar ôl tynnu data o'r alwad am dystiolaeth a'r holiaduron, cynhaliwyd digwyddiad cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr ar 9 Chwefror 2023, gydag ystod o randdeiliaid oedd yn cael eu heffeithio gan yr adolygiad yn mynychu a chyflwyno themâu newydd o gamau cychwynnol ein gwaith. Dilynwyd hyn gan

sesiynau grŵp a chyfarfod llawn. Defnyddiwyd yr allbwn o'r digwyddiad cenedlaethol i sefydlu materion allweddol a gafodd eu harchwilio wedyn mewn grwpiau ffocws penodol i grŵp cleientiaid.

Cynhaliwyd cyfanswm o 6 grŵp ffocws, ac ymwelwyd â 18 o wasanaethau trwy gyfweliadau gwasanaeth penodol, neu ymgysylltwyd â hwy (gweler Atodiad V am fanylion).

Defnyddiwyd y data a gasglwyd gan ddefnyddio'r dulliau cymysg hyn i lunio canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad. Nodir canlyniadau pob cam o'r adolygiad yn fanwl isod.

## Galwad am dystiolaeth

Ar 8 Tachwedd 2022, anfonwyd galwad am dystiolaeth i gefnogi'r adolygiad at bob awdurdod lleol, fel comisiynwyr gwasanaeth ac at grŵp o dros 40 o sefydliadau a chyrff rhanddeiliaid ledled Cymru. Roeddent yn cynrychioli ystod eang o sefydliadau gan gynnwys academyddion, sefydliadau eiriolaeth cenedlaethol a darparwyr gwasanaethau yn y sector gwirfoddol. Mae copi o'r alwad am dystiolaeth ynghlwm yn Atodiad II.

Yn ogystal â nodi cwmpas y prosiect, gofynnwyd tri chwestiwn allweddol i'r holl randdeiliaid:

1. P'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw adolygiadau gwasanaeth wedi'u gyhoeddi o gyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol neu sefydliadau darparwyr ers mis Gorffennaf 2021
2. P'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw adroddiadau wedi'u cyhoeddi gan sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol sy'n darparu tystiolaeth o sut mae cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant wedi cael eu hailgyflwyno ers mis Gorffennaf 2021
3. P'un a oeddent yn ymwybodol o arfer nodedig, neu a oedd ganddynt dystiolaeth o arfer nodedig, oedd yn helpu i drawsnewid cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant.

Derbyniwyd un ar ddeg o ymatebion. Er na chyflwynwyd adroddiadau wedi'u cyhoeddi gan awdurdodau lleol am eu hadolygiadau eu hunain o wasanaethau cyfleoedd dydd a gofal seibiant, cawsom wybod bod rhai adolygiadau'n cael eu cynnal ar yr adeg y gwnaed yr alwad am dystiolaeth. Cawsom wybod hefyd gan un sefydliad trydydd sector, Mencap Cymru, eu bod i fod i gynnal arolwg o wasanaethau cyfleoedd dydd ar ran y Consortiwm Anabledd Dysgu, yn gynnar yn 2023.

Roedd dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd o'r alwad dystiolaeth yn nodi themâu allweddol sydd wedi'u nodi isod.

## Materion allweddol a nodwyd yn yr alwad am dystiolaeth

**Awdurdodau Lleol**

- Nodwyd yr angen am newid gwasanaethau ac roedd wedi dechrau mewn llawer o awdurdodau lleol cyn y pandemig ond roedd y pandemig yn cael ei ystyried fel catalydd ar gyfer ailgynllunio
- Fe wnaeth awdurdodau lleol addasu gwasanaethau presennol i ddarparu darpariaeth newydd, fwy personol, gyda mwy o allgymorth a defnydd o dechnoleg ddigidol newydd
- Roedd llai o bobl yn dychwelyd i rai gwasanaethau nag a oedd wedi'u derbyn cyn y pandemig, gyda gorbryder a diffyg hyder yn cael eu nodi fel rhesymau allweddol dros gadw draw
- Roedd ystod eang o gyfleoedd dydd (gan gynnwys cyflogaeth â thâl) yn cael eu harchwilio a'u cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr a'u teuluoedd yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd ac, mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, gan ddefnyddio dull seiliedig ar gryfderau
- Roedd defnydd ehangach o gyfleusterau yn y gymuned, mewn ymgais i symud y ffocws o gefnogaeth mewn adeiladau
- Ystyriwyd nad oedd rhai asedau awdurdodau lleol bellach yn addas i'r diben mewn amgylchedd gofal ôl-bandemig

- Roedd rhwystrau eraill i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys mynediad at drafnidiaeth, yn ogystal â heriau recriwtio a chadw gweithwyr/gwirfoddolwyr.

**Sefydliadau Rhanddeiliaid**

- Cafodd cyfleoedd dydd rhai unigolion eu stopio a bellach roedd y ddarpariaeth yn sylweddol llai neu nid oeddent wedi ailgychwyn
- Bu'n rhaid i rai unigolion wneud cyfraniad ariannol i wasanaethau hyd yn oed lle nad oedd modd manteisio arnynt ar anterth y pandemig.
- Roedd canfyddiad mai'r ddarpariaeth awdurdod lleol fu'r arafaf i ailddechrau, tra bod y sectorau annibynnol a gwirfoddol wedi bod yn fwy ystwyth wrth fynd yn ôl ati
- Er bod rhai unigolion wedi addasu i fodelau cymorth newydd, nid oedd hyn yn golygu nad oedd ganddynt unrhyw awydd i ddychwelyd i'r gwasanaethau oedd ganddynt cyn y pandemig.
- Er bod rhai awdurdodau lleol wedi dweud eu bod nhw wedi dechrau ailgynllunio gwasanaethau, nid oedd llawer o dystiolaeth bod hyn wedi digwydd.
- Nid oedd gwasanaethau o bell, ar-lein neu hybrid yn cael eu hystyried yn addas i bawb, ac roeddent yn cyflwyno rhwystrau i rai grwpiau
- Roedd maint a chysondeb yr ymgysylltiad rhwng awdurdodau lleol, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, wedi bod yn 'anghyson' ac roedd angen ei ddatblygu ymhellach
- Roedd cyfyngu ar gyllid elusennol i ddarparwyr y sector gwirfoddol yn peryglu rhywfaint o ddarpariaeth gwasanaethau; gwaethygwyd hyn ymhellach gan bwysau costau byw
- Roedd recriwtio a chadw gweithlu yn profi'n heriol ar gyfer darparu gwasanaethau a pharhad.

Derbyniodd tîm adolygu'r prosiect rai enghreifftiau o arfer da i'w harchwilio'n fanylach ac, mewn rhai achosion, gwnaed cynigion estynedig i ymweld â'r gwasanaethau hyn.

**Holiaduron Darparwyr a Chomisiynwyr Gwasanaeth**

Ar 13 Rhagfyr 2022, cyhoeddwyd arolygon electronig i gomisiynwyr a darparwyr a oedd eisiau’r safbwynt ddiweddaraf o ran sut roedd gwasanaethau cyfleoedd dydd, gofal seibiant a seibiant byr yn cael eu comisiynu a'u darparu ar gyfer pob grŵp a nodwyd o fewn cwmpas y prosiect.

Roedd arolygon ansoddol yn cynnwys cwestiynau tebyg iawn am effaith y pandemig ar ddarpariaeth gwasanaethau, pa newidiadau a wnaed, a oedd y newidiadau hynny wedi'u cynnal a'r prif bwysau cyfredol ar wasanaethau. Mae’r arolygon a manylion yr ymatebion wedi’u darparu yn Atodiadau, III a IV.

Cyhoeddwyd arolwg meintiol hefyd i gomisiynwyr awdurdodau lleol. Roedd hyn yn ceisio cael data cymharol mewn perthynas â nifer y sesiynau a lleoliadau sesiynau cyn ac ar ôl y pandemig. Bwriad yr arolwg oedd gwella ein dealltwriaeth o'r newid rhwng darpariaeth gwasanaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth gwasanaeth digidol a allai fod wedi digwydd ledled Cymru a deall pa wasanaethau oedd yn cael eu cynnig ar hyn o bryd. Roeddem ni hefyd eisiau cael argraff ynghylch a oedd gwasanaethau'n cael eu hystyried fel rhai sydd wedi cynyddu neu leihau o ran maint ac i ganfod a oedd capasiti cyfleoedd dydd yn lleihau. Mae'r manylion yn cael eu darparu yn Atodiad III.

Ar gyfer gofal seibiant a gwasanaethau arhosiad byr, ceisiodd yr arolwg gymharu a chyferbynnu nifer yr unedau gofal seibiant a diwrnodau gwely cyn ac ar ôl y pandemig i ddeall effaith y pandemig ar ddarpariaeth y gwasanaeth hwn. Mae'r manylion yn cael eu darparu yn Atodiad III.

Yn anffodus, roedd ymatebion i'r arolwg meintiol yn anghyflawn ac yn anghyson. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad ystyrlon o'r data hwn. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i'r

dadansoddiad lefel uchel o'r arolygon ansoddol yma.

Mewn trafodaethau dilynol o fewn grwpiau ffocws, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd mesur darpariaeth yn y ffordd yr oedd yr holiadur wedi ceisio ei wneud. Mae'r lefel a'r gyfradd ymateb amrywiol i'r cwestiynau hyn yn awgrymu nad yw data meintiol yn cael ei gasglu'n rheolaidd ac yn systematig ledled Cymru. Nid oes set ddata safonol ar gyfer dal cyfleoedd dydd, gofal seibiant a gwasanaethau seibiant byr. Fodd bynnag, gall cymhlethdod y dirwedd fod yn gyfrifol am hyn. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn defnyddio Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad a defnyddio data'r cyfrifiad i fesur a chynllunio'r galw am y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

## Materion allweddol a nodwyd mewn yn ymatebion yr holiadur

**Ymatebion ansoddol gan gomisiynwyr**

Ymatebodd traean o'r awdurdodau lleol gan gwmpasu dros 5 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Fe wnaethant ddarparu naratif ar gyfer 36 o feysydd gwasanaeth a oedd yn gymysgedd o wasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol. Rhannwyd y rhain i 58% o gyfleoedd dydd, 28% o ofal seibiant preswyl a 14% o seibiannau byr:

- Dywedodd 55% o gomisiynwyr eu bod nhw wedi gwneud newidiadau comisiynu yn ystod y pandemig, gyda newid mewn lleoliadau a llai o lefydd wedi'u comisiynu fel y ddau newid uchaf
- Dywedodd 30% o'r ymatebion fod newid yn gysylltiedig yn llwyr â'r pandemig, gyda 30% yn nodi ffactorau eraill fel symud i fodelau gofal arloesol newydd, megis mwy o ofal o bell, allgymorth, neu ofal pwrpasol 1:1
- Dywedodd 66% fod y newidiadau a wnaed yn ystod y pandemig wedi cael eu cadw, gyda dim ond 22% yn dymuno dychwelyd i'w manyleb gwasanaeth cyn y pandemig
- Nododd 91% heriau eraill o ran darparu gwasanaethau, gyda phrinder gweithlu, chwyddiant bwyd a thanwydd yn cael eu nodi fel y tri phrif fater. Ymhlith y materion eraill y cyfeiriwyd atynt oedd pwysau cyllidebol, mynediad at drafnidiaeth, sefydlogrwydd y farchnad, costau yswiriant a'r gallu i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r gweithlu.

**Ymatebion ansoddol gan Ddarparwyr**

Derbyniwyd 30 o ymatebion gan ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau o fewn 12 awdurdod lleol unigol a 4 ymateb gan ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol lluosog (nodwyd 5 awdurdod lleol ychwanegol). Roedd sylw ar draws yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fe wnaethant ddarparu naratif ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ar draws 6 maes gwasanaeth, rhannwyd y rhain i lawr i 65% o gyfleoedd dydd, 20% o ofal seibiant preswyl, 6% o seibiant byr, 3% ar gyfer cymorth gofalwyr, 3% ar gyfer byw â chymorth â chymorth a 3% ar gyfer cymorth cyfleuster/cymunedol

- Dywedodd 79% o ddarparwyr eu bod nhw wedi cyflwyno newidiadau i wasanaethau yn ystod y pandemig, gyda llai o leoedd wedi'u comisiynu a newidiadau mewn lleoliadau wedi'u hamlygu fel y newidiadau mwyaf cyffredin
- Dywedodd 50% fod y pandemig yn gwbl gyfrifol am newid, dywedodd 20% fod newidiadau wedi'u cynllunio o flaen llaw gydag 11% arall yn dweud ei fod yn ffactor cyfrannol, ond bod ffactorau eraill ar waith, gan gynnwys cyllid a chymhlethdod cynyddol anghenion defnyddwyr gwasanaeth
- Dywedodd 74% fod y newidiadau yn dal i fod ar waith, dywedodd 59% nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i ddychwelyd i fodelau gwasanaeth blaenorol ond dywedodd 29% eu bod

nhw eisiau neu y bydden nhw eisiau ystyried dychwelyd i drefniadau cyn y pandemig. Roedd cafeatau i'r newidiadau hyn, gan gynnwys cyllid, mynediad diogel i gyfleusterau a p'un a ellid cynhyrchu niferoedd digonol o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i wneud y gwasanaeth yn gynaliadwy

- Nododd 82% heriau eraill o ran darparu gwasanaethau, gyda phrinder gweithlu, chwyddiant bwyd a thanwydd yn cael eu nodi fel y tri phrif fater. Roedd materion eraill y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys, cyllid a phwysau cyllidebol, mynediad at drafnidiaeth, gwella tâl, telerau ac amodau, costau cofrestru staff ac ymddeoliad teuluoedd lletyol ar gyfer gofal seibiant a seibiannau byr.

## Digwyddiad cenedlaethol i ymarferwyr

I atgyfnerthu gwybodaeth a gasglwyd o'r alwad am dystiolaeth a grwpiau ffocws, cynhaliwyd digwyddiad cenedlaethol rhithwir ar gyfer ymarferwyr ar 9 Chwefror 2023. Rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr am themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o gamau cynharach yr adolygiad a chyflwyniadau gan randdeiliaid dethol.
Trwy gydol y dydd, gwahoddwyd cyfranogwyr i fyfyrio ar y cyflwyniadau ac i gyfrannu tystiolaeth ychwanegol gan weithio mewn grwpiau ac yn y cyfarfod llawn.

Darperir copi o'r rhaglen lawn ar gyfer y digwyddiad yn Atodiad V.

## Pwyntiau dysgu allweddol

Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyflwyniadau a ddarparwyd ar ddatblygiadau gwasanaeth ac ar ddefnyddio dulliau cyd-gynhyrchu.

Cytunwyd bod y canfyddiadau cychwynnol a gasglwyd o'r holiaduron yn adlewyrchu eu profiadau eu hunain yn fras.

Roedd llawer o'r materion a nodwyd yn y digwyddiad yn gyffredin ar draws grwpiau cleientiaid a ledled gwahanol rannau o Gymru. Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau pwysig.

Nodwyd themâu cyffredin fel rhai oedd yn galluogi newid a diwygio gwasanaethau, sef:

- Y pandemig - sy'n cael ei weld fel sbardun ar gyfer cyflymu newid
- Y gweithlu - cafodd cynnwys staff mor gynnar â phosibl yn y broses ei gydnabod fel man cychwyn da ar gyfer newid
- Gwerthoedd ac egwyddorion - mae angen bod yn arloesol wrth recriwtio, a rôl marchnata i adlewyrchu'n gywir bwysigrwydd cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr
- Cydweithio - blaenoriaethau comisiynu ar y cyd â phartneriaid a chydweithio ar ddarparu
- Cadw pethau'n lleol – canolbwyntio ar y gymuned leol a gweithio gyda nhw
- Data a thystiolaeth – roedd casglu data lleol yn cael ei ystyried yn hanfodol, gan gynnwys, er enghraifft, demograffeg, gan ddangos nifer y bobl sy'n debygol o fod angen rhyw fath o gefnogaeth
- Cyllid ac adnoddau – hanfodol er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer arloesi
- Darpariaeth person-ganolog
- Technoleg Ddigidol

Nodwyd themâu cyffredin fel rhai sy'n creu rhwystrau i newid gan gynnwys:

- Adnoddau - cyllid a phobl, yn enwedig effaith costau byw i'r holl randdeiliaid, diffyg buddsoddiad ac ati
- Y gallu i newid – safbwyntiau sydd wedi ymwreiddio ymhlith staff a theuluoedd, yn ogystal â'r amser mae'n ei gymryd i wneud i newid ddigwydd
- Y gweithlu - cystadleuaeth yn y sector, er enghraifft, o'r sectorau manwerthu a lletygarwch, a materion yn ymwneud â gwrthsefyll staff i newid

- Cyfathrebu cyhoeddus/cymunedol - ydy'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o rôl ac effaith gofal cymdeithasol ?

| |
|---|
| • Deinameg pŵer – mae diffyg cyd-gynhyrchu oherwydd nad yw llawer o chwaraewyr yn deall yn iawn beth mae'n ei olygu a / neu sut i'w wneud yn iawn |
| • Rhwystrau unigol/personol – unigolion sy'n profi diffyg hyder oherwydd y pandemig |
| • Heriau economaidd a chymdeithasol ehangach - her i sicrhau cyflogaeth â chymorth i bobl oherwydd bod busnesau'n cael trafferthion ariannol, neu ddim yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gyflogi pobl ag anableddau |
| • Anallu i ddeall a/neu reoli angen - mae'n anodd rheoli anghenion cymhleth a darparu ar eu cyfer. |
| • Yn aml, gall anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd fod yn eithaf gwahanol a gall hyn greu tensiwn wrth benderfynu ar y model cymorth priodol |

Crynhowyd y themâu a nodwyd yn y digwyddiad cenedlaethol i'w defnyddio fel pwyntiau trafod o fewn grwpiau ffocws penodol cleientiaid.

## Grwpiau ffocws

Yn dilyn y digwyddiad ymarferwyr cenedlaethol, trefnwyd cyfres o grwpiau ffocws. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i arbenigwyr o fewn yr amrywiol feysydd gwasanaeth ddarparu dadansoddiad manylach o'r materion a nodwyd yn gynharach yn yr adolygiad. Roedd y grwpiau ffocws yn cwmpasu pob grŵp poblogaeth ac yn hwyluso cyfraniadau o wahanol sectorau a rhanbarthau ledled Cymru.

Cynhaliwyd cyfanswm o 6 grŵp ffocws rhwng 27 Chwefror a 6 Mawrth 2023.

Ni fwriedir i'r adrannau canlynol fod yn adlewyrchiad llawn o'r trafodaethau a gynhaliwyd ym mhob grŵp ond yn hytrach nodi sawl thema gyffredin a oedd yn rhychwantu'r grwpiau a'r ffactorau a nodwyd gan gyfranogwyr, a fydd, yn eu barn nhw, yn galluogi neu'n gweithredu fel rhwystrau i drawsnewid.

**Themâu cyffredin**

Yn ystod y pandemig gorfodwyd asiantaethau yn aml i leihau eu cynnig gwasanaeth, er gwaethaf y ffaith bod cymhlethdod yr angen yn tyfu.

Dywedodd un ymarferydd gwasanaeth fod 160 o bobl yn eu hardal wedi profi gostyngiad o 58% yn yr oriau a dderbyniwyd. Ar ben hynny, dywedwyd pan fydd defnydd adeilad yn cael ei gymryd i ffwrdd, nid yw pobl yn colli'r cyfleuster yn unig ond, o bosibl, cysylltiadau cymdeithasol sydd wedi'u sefydlu.

Roedd gwasanaethau preswyl seibiant byr yn cael eu hystyried yn hanfodol i gefnogi lles a chynaliadwyedd gofalwyr a theuluoedd di-dâl.

Adroddwyd bod galw am wasanaethau seibiant byr preswyl wedi bod yn uwch nag erioed yn ystod y pandemig mewn rhai ardaloedd, oherwydd pwysau ychwanegol ar deuluoedd. Fodd bynnag, adroddwyd bod y galw wedi lleihau mewn rhai achosion, oherwydd er enghraifft, roedd gan rai aelodau o'r teulu fwy o amser i ddarparu gofal oherwydd trefniadau ffyrlo. Dewisodd rhai pobl osgoi lleoliadau gofal i leihau eu risg o ddal COVID-19.

Er bod llawer o wasanaethau seibiant byr wedi cau'n gyfan gwbl drwy gydol y cyfnod pan oedd cyfyngiadau ar waith, mewn rhai ardaloedd, dim ond lle roedd achosion o COVID-19 mewn lleoliad y caeodd gwasanaethau. Mewn sawl ardal, roedd wedi cymryd tan 2023 i wasanaethau ddychwelyd i normalrwydd.

Amlygodd llawer o gyfranogwyr yr adolygiad bwysigrwydd yr hyn y gellir ei ddisgrifio fel gwerth cymdeithasol cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant byr. Wrth gomisiynu'r gwasanaethau

hyn, dylid ystyried pa werth ychwanegol y gellir ei ennill trwy gontractau â darparwyr i hyrwyddo eu gwerth cymdeithasol i'r rhai sy'n cael eu derbyn, eu teuluoedd a'u cymunedau lleol. Gellir cynorthwyo hyn ymhellach drwy gydweithrediad rhwng partneriaethau a rhwydweithiau gyda mwy o werthfawrogiad o sut mae cymorth o ansawdd da yn edrych a chanolbwyntio ar egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylunio mewn swydd blaenllaw a sbarduno gweithgarwch awdurdodau lleol.

Daeth y defnydd cynyddol o dechnoleg â nifer o fanteision. Er enghraifft, roedd staff sy'n gweithio gartref yn gallu ymuno â chyfarfodydd o bell, hyd yn oed pan oedd ganddynt ymrwymiadau gofal plant.
Adroddwyd bod ymgysylltu â theuluoedd a gofalwyr wedi gwella mewn rhai ardaloedd, gyda'r gallu i gwrdd a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau a rennir ar-lein. Roedd hyn wedi rhoi'r cyfle i gael sgyrsiau mwy cyfoethog ynghylch anghenion cymorth unigolion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Dywedodd cyfranogwyr hefyd eu bod wedi cynyddu eu rhaglen o gyfleoedd yn y gymuned wrth i gefnogaeth mewn canolfannau gael ei dynnu'n ôl neu ei leihau. Dywedwyd bod cymunedau'n fwy agored i'r ymgysylltiad hwn â chomisiynwyr, gyda mynediad i leoliadau yn cael eu hadrodd fel rhai sy'n gwella mewn rhai achosion.

Gweithiodd gwasanaethau darparwyr yn agos gyda theuluoedd i nodi pa ddarpariaeth yr oeddent fwyaf cyfforddus â hi. Mae wedi cymryd amser i ailadeiladu hyder ymhlith rhai pobl a'u teuluoedd. Fodd bynnag, er bod rhai sy'n derbyn gwasanaeth wedi lleihau, yn fwy diweddar, derbyniwyd mewnlifiad o atgyfeiriadau, yn aml gyda disgwyliadau ac angen cynyddol oherwydd cymhlethdod mwy ymhlith y rhai a gyfeiriwyd yn fwy diweddar.

Adroddwyd bod cymhlethdod wedi codi'n ddramatig. Dywedodd un ymarferydd gwasanaeth fod 80% o'r bobl sy'n mynychu bellach angen cefnogaeth 1:1 neu 2:1 o'i gymharu â 50% cyn y pandemig. Adroddwyd bod atgyfeiriadau newydd â lefelau sylweddol uwch o angen. Yn yr un modd, adroddwyd bod anghenion llawer o'r rhai sy'n dychwelyd i wasanaethau yn dilyn y pandemig, mewn llawer o achosion wedi cynyddu.

## Materion penodol grŵp cleientiaid

**Gwasanaethau i bobl sy'n niwroamrywiol**

Disgrifiwyd gwasanaethau ar gyfer y garfan hon fel rhai ychydig yn wahanol i grwpiau cleientiaid eraill, gyda mwy o angen i gydweithio â chydweithwyr yn y GIG mewn perthynas ag addasu gwasanaethau yn ystod y pandemig, ac yn ei sgil. Elfen bwysig i dynnu sylw ato yma yw gwaith y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth, a fydd yn gofyn am ymdrech ar y cyd i'w roi ar waith, yn enwedig creu gwasanaethau cynaliadwy, yn ogystal â datblygu seilwaith a chapasiti'r gweithlu .

**Galluogwyr trawsnewid**

Roedd cysylltu â phobl ar-lein wedi bod o gymorth o ran gwella mynediad at wasanaethau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys darparu tabledi electronig a thechnoleg arall a oedd wedi galluogi pobl i ymuno â grwpiau WhatsApp. Yn dilyn hynny roedd llawer wedi teimlo eu bod nhw'n gallu mynychu gwasanaethau wyneb yn wyneb ar ôl y pandemig, lle efallai nad oedden nhw wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

I'r rhai ar y sbectrwm awtistiaeth, yn enwedig wedi'u cyfuno ag anawsterau synhwyraidd, gall ymgysylltu â gwasanaethau fod yn anodd. Disgrifiwyd technoleg fel rhywbeth oedd wedi cael effaith fawr ar wella hyn. Disgrifiwyd fod pobl yn rhoi cynnig ar bethau na fyddent fel arfer yn ceisio eu gwneud a gwneud ffrindiau newydd .

Mae technoleg wedi bod yn bwysig i staff a grwpiau. Roedd rhai staff wedi datblygu eu sgiliau wrth ddefnyddio technoleg. Dywedodd un darparwr gwasanaeth fod staff oedd yn profi anawsterau gyda TG, bellach yn cyrchu 'cymhorthfa dechnoleg' y gweithlu, oedd yn rhoi hyfforddiant iddyn nhw ar wahanol ddyfeisiau.

Roedd rhywfaint o waith wedi'i wneud gyda theuluoedd i fagu hyder yn y defnydd o gyfleusterau lleol ac adnoddau cymunedol.

**Rhwystrau i drawsnewid**

Er bod rhai newidiadau yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn fuddiol i lawer o ddefnyddwyr, dywedwyd yn aml bod teuluoedd eisiau gwasanaethau i ddychwelyd i fodelau cyn y pandemig.

Roedd diagnosis wedi bod yn broblem o ran atgyfeiriadau at wasanaethau. Yn ystod y pandemig arafodd diagnosis problemau niwro-amrywiaeth.

Tynnwyd sylw hefyd at fater cymhwysedd. Disgrifiwyd trothwyon a gymhwysir mewn oedolaeth fel rhai sy'n uwch na'r rhai a ddefnyddir mewn gwasanaethau i blant. Angen a lles ddylai fod y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar ddarpariaeth gwasanaeth i sicrhau parhad y gefnogaeth, gan fod angen i anghenion pobl a'u teuluoedd newid.

Disgrifiwyd pontio o blentyndod i fod yn oedolyn fel her enfawr. Disgrifiwyd torbwynt o wasanaethau plant a phobl ifanc yn anghyson, gan effeithio ar barhad ac arwain at fylchau gwasanaeth posibl.

Mae gwasanaethau wedi gorfod dibynnu ar gyllid ychwanegol i ddarparu adnoddau technoleg gwybodaeth .

## Gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu

**Galluogwyr trawsnewid**

Roedd dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn bwysig ac roedd angen iddynt fod yn greiddiol yn hytrach nag yn haen ychwanegol i wasanaethau 'arferol'. Yn yr un modd, amlygwyd dealltwriaeth glir o'r cysyniad o ddewis, a rôl allweddol y rhai sy'n gweithio'n agos gydag unigolion wrth sefydlu'r hyn a oedd yn bwysig iddyn nhw.

Amlygwyd bod dulliau both ac adain yn bwysig iawn i bobl ag ymddygiad sy'n herio.

Roedd sefydlu gwasanaethau pob oedran yn bwysig er mwyn osgoi tarfu ar gyfnodau pontio .

Amlygwyd pwysigrwydd ac effaith bosibl gwasanaethau cyfleoedd dydd. Ni ddylid tanbrisio dealltwriaeth o werth llawn yr hyn y gall gwasanaethau effeithiol ei gyflawni, gan gynnwys cymorth ataliol ac effeithio ar gysylltedd a lles pobl. Yn hytrach, dylid chwyddo'r ffactorau hyn i ddangos pwysigrwydd y gwasanaethau hyn.

**Rhwystrau i drawsnewid**

Mae dulliau cyd-gynhyrchu yn gofyn am amser i staff a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i sefydlu beth sy'n bwysig a nodi canlyniadau personol a ddymunir gan unigolion, yn unol â gofynion SSWBA 2014. Cododd rhai cyfranogwyr densiwn posibl yn y defnydd o ddulliau cyd-gynhyrchu gyda'r safonau amserlen ar gyfer asesiadau o fewn y Ddeddf. Er mwyn i gyd-gynhyrchu lwyddo, awgrymwyd bod angen dull systemau ehangach, gan gynnwys cyfraniadau o'r gymuned ehangach. Yr allwedd i lwyddiant oedd cymryd amser a sgiliau gweithwyr cymorth i weithio mewn ffordd gyd-gynhyrchiol.

Gall y dewis gael ei gyfyngu gan adnoddau, gyda'r potensial ar gyfer cyflawni canlyniadau a nodwyd wedi'u cyfyngu mewn rhai achosion.

Codwyd pryderon gan un mudiad trydydd sector am beidio â rheoleiddio gwasanaethau dydd. O ganlyniad, roedden nhw’n honni nad yw staff yn elwa o gyfraddau tâl uwch a dderbynnir gan y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau wedi’u rheoleiddio ac na chawsant y bonws COVID. Fe wnaethon nhw ychwanegu bod hyn yn gwneud recriwtio yn anoddach, a bod gwasanaethau'n colli staff i feysydd a reoleiddir sy'n gwneud gwaith tebyg. Dylid nodi bod eraill yn anghytuno â'r dadansoddiad hwn.

Roedd rhai aelodau o'r grŵp yn cwestiynu a oedd prosesau comisiynu presennol yn ffafriol i ddulliau cyd-gynhyrchu.

## Gwasanaethau i Ofalwyr di-dâl

Materion hirsefydlog a nodwyd fel rhai sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl oedd, deall beth yw bod yn ofalwr, a pha wasanaethau sydd ar gael iddynt. Dywedwyd bod aelodau'r teulu yn gweld eu hunain felly ac nad ydynt yn gwneud y cysylltiad â bod yn ofalwr di-dâl. Er mwyn ceisio cymorth, mae angen i bob rhanddeiliad ddeall ehangder y rôl ofalu a'r gwasanaethau sydd ar gael.

**Galluogwyr trawsnewid**

Gall bod yn ofalwr di-dâl gynnwys sbectrwm eang o anghenion sy'n gofyn am ystod o gymorth. Gall mynd i'r afael â'r hyn y gellir ei ystyried yn anghenion lefel isel atal heriau rhag gwaethygu. Roedd rhanddeiliaid yn yr adolygiad yn teimlo bod mynediad cyffredinol at gymorth o ansawdd uchel, yn hanfodol ac y byddai'n cael ei hwyluso drwy ddatblygu 'cymuned' o ofalwyr ac ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o'r rôl a'r anghenion cysylltiedig. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth yn y gweithle. Byddai darparu'r ystod o gymorth sydd ei angen yn cael ei gynorthwyo gan ddull datblygu cymunedol. Ystyriwyd bod dull wedi'i gyd-gynhyrchu o ddatblygu cefnogaeth yn allweddol.

Mae Hwb Llesiant wedi cael ei sefydlu gan Gofalwyr Cymru ac fe nodwyd bod prosiect Gobaith, a sefydlwyd gan Age Cymru, hefyd yn ymgymryd ag ymchwil, yn cyfeirio pobl ac yn ymgymryd â chyflwyniadau i ofalwyr di-dâl i wasanaethau perthnasol.

Roedd gofalwyr di-dâl yn teimlo y dylid cydnabod bod seibiannau byr yn bwysig i'w lles nhw eu hunain yn ogystal â'r rhai sy'n elwa'n uniongyrchol o'r gwasanaethau.

**Rhwystrau i drawsnewid**

Pwysleisiodd y grŵp ganfyddiadau'r arolwg blynyddol diweddar a gynhaliwyd gan Gofalwyr Cymru nad oedd gwasanaethau, i lawer, wedi ailgychwyn.[ii] Roedd gofalwyr di-dâl yn teimlo y dylid cydnabod a mynd i'r afael â hyn.

Roedd 'gwasanaethau eistedd' yn cael eu hystyried yn adnodd arbennig o ddefnyddiol i ofalwyr di-dâl. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaethau hyn ar gael bob amser. Lle mae pobl yn ceisio cymorth yn eu rôl ofalu, nid oedd bob amser yn glir beth oedd ganddyn nhw hawl iddo a dewisiadau oedd ar gael iddynt. Gall hyn effeithio'n ddifrifol ar y potensial ar gyfer ymyrraeth gynnar.

Dylid darparu mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael ac yn hygyrch, ynghyd â gwybodaeth fwy cyffredinol. Dylai gofalwyr di-dâl wybod pa hawliau sydd ganddynt ond nid oedd y wybodaeth hon bob amser yn bresennol.

## Gwasanaethau i Blant ag anghenion cymhleth

Pwysleisiodd aelodau'r grŵp ffocws anghenion penodol plant, nad oeddent wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y materion sy'n codi o'r alwad am dystiolaeth a holiaduron dilynol. Er enghraifft, roedd anghenion cyfleoedd dydd yn wahanol i blant sy'n dal i fod mewn addysg. Dylid cydnabod hefyd y gallai'r polisi o ddileu elw o wasanaethau plant sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, fod yn fecanwaith galluogi i drawsnewid. Fodd bynnag, gallai fod canlyniadau anfwriadol hefyd a allai olygu ei fod yn dod yn rhwystr.

**Galluogwyr trawsnewid**

Er mwyn diwallu anghenion yn gyfannol, mae'n ofynnol i fwy na darparwyr gofal cymdeithasol awdurdodau lleol a darparwyr trydydd sector gymryd rhan. Bydd diwallu anghenion yn effeithiol yn gofyn am gydweithio ar draws adrannau gofal cymdeithasol, iechyd ac awdurdodau lleol eraill, fel addysg a hamdden. Clywsom, er bod arian adfer COVID-19 yn caniatáu i sefydliadau roi cynnig ar

bethau a bod yn arbrofol gyda dylunio a darparu gwasanaethau, nid oedd hyn wedi'i gynnal ac roedd cyllid digonol yn hanfodol i weld newid yn cael ei ymgorffori a'i gyfuno wrth symud ymlaen.

Mewn rhai achosion, nid oedd gwella yn ymwneud â chyflwyno modelau newydd o gymorth, ond roedd yn ymwneud â gwella ansawdd y dulliau presennol.

**Rhwystrau i drawsnewid**

Gall y system gofrestru fod yn her i ddarparwyr gwasanaethau plant ac oedolion oherwydd bod gan wasanaethau i blant ac oedolion systemau cofrestru gwahanol. Hefyd, oherwydd bod llais y plentyn yn gallu bod yn anodd ei ysgogi, gall siâp gwasanaethau gofal seibiant fod yn seiliedig ar anghenion y rhieni yn hytrach na'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau.

Neges glir oedd bod anghenion plant yn dod yn fwy cymhleth, gydag ymddygiad sy'n peri pryder ac yn herio, sydd, mewn rhai achosion, yn gwaethygu gan yr amgylcheddau cymdeithasol mae plant yn byw ynddynt.

Gall trothwyon a gymhwysir i wasanaethau unigol fod yn afresymol gan eu bod nhw'n diystyru lefelau angen cyffredinol ac mewn rhai achosion yn methu ag adlewyrchu'r lefelau cyfunol o angen a brofir gan blant a'u teuluoedd. Byddai'r lefelau hynny'n cyfiawnhau mynediad at wasanaethau sydd, yn ymarferol, yn cael eu gwrthod i unigolion.

Adroddir yn aml bod teuluoedd sy'n dewis Taliadau Uniongyrchol (DP) yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at Gynorthwywyr Personol (PA).

Codwyd yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau fel mater hollbwysig, gyda'r galw yn aml yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael hyd yn oed cyn y pandemig. Mae cymarebau staff / defnyddwyr gofynnol a diffyg eglurder ynghylch priod gyfrifoldebau cyllid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, yn ychwanegu pwysau pellach. Mae iechyd yn cael ei ystyried mewn rhai achosion fel petai'n 'cerdded i ffwrdd' oddi wrth eu cyfrifoldebau o ran cyllid. Gall hyfforddiant gweithwyr fod yn ddrud. Mae heriau staffio o ran recriwtio a chadw yn berthnasol i'r grŵp poblogaeth hwn yn ogystal ag i eraill. Nid yw'n syndod yn y cyd-destun hwn, roedd yr angen am fwy o fuddsoddiad yn cael ei ystyried yn fater hollbwysig.

O ganlyniad i'r heriau uchod efallai, codwyd pryderon ynghylch argaeledd gwasanaethau i rai teuluoedd.

Mater arall a godwyd oedd bod gwasanaethau iechyd yn nodi pryd y gallant ddarparu gwasanaeth. Clywsom y gellir seilio amseru o amgylch pryd y gall staff ddarparu'r amser, nid pan fydd ei angen ar y teulu.

## Gwasanaethau i bobl hŷn

**Galluogwyr trawsnewid**

Yn ystod ein trafodaeth, dywedodd un awdurdod lleol ei fod wedi ailfodelu gwasanaethau i gynnwys mwy o ddewis yn y gymuned, gan fod pobl yn gofyn am gymorth saith diwrnod yr wythnos. Yn dilyn hynny, adeiladodd yr awdurdod lleol ar ei ap hamdden digidol presennol sydd ar gael i'r cyhoedd i hyrwyddo argaeledd gwasanaethau i bobl hŷn.

Mae'r twf yn y defnydd effeithiol o dechnoleg, technegau ac ymarfer clinigol trwy ddatblygu wardiau rhithwir a gwasanaethau allgymorth ysbytai yng nghartref person yn hanfodol, gan ei fod yn darparu cyfleoedd am gymorth y tu allan i wasanaethau ffurfiol a lleoliadau ffisegol. Amlygwyd y dyddiau hyn y gellir mynd i'r afael â bron popeth y tu allan i sefydliadol/lleoliad preswyl. Os nad yw gwasanaethau ataliol ar waith, efallai y byddai teuluoedd yn wynebu argyfwng.
Mae ymyrryd mewn argyfwng yn costio mwy o arian i awdurdodau lleol na gofal a reolir. Ystyrir buddsoddi i arbed yn bwysig ar gyfer atebion hirdymor a mwy o effeithlonrwydd.

Mae'r system Eco ar gyfer model newydd o gefnogaeth hirdymor nid yn unig yn cynnwys iechyd, tai a gofal cymdeithasol ond rhwydwaith helaeth o gydrannau. Mae angen creu systemau ymreolaethol a chynnwys gweithlu, rheoli gwastraff, cynllunio, economi gylchol, addysg, deunyddiau uwch, dylunio ac ati. Er mwyn creu'r hyn sydd ei angen, rhaid symud i ffwrdd oddi wrh feddylfryd traddodiadol iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

**Rhwystrau i drawsnewid**

Fel gyda grwpiau cleientiaid eraill, mae staffio a gweithlu yn fater sylweddol. Adroddwyd bod llai o bobl yn gwneud cais am swyddi yn y rhan hon o'r sector gofal cymdeithasol. O'r herwydd, mae llai o bobl ar gael i ateb unrhyw alw ychwanegol.

Amlygwyd y byddai cyflawni dyhead cynnig saith diwrnod yr wythnos yn arwain at oblygiadau sylweddol i'r gweithlu. Mae undebau llafur wedi bod yn rhan o'r trafodaethau o ran y gweithlu a newidiadau posibl i oriau gwaith a gofynnwyd i ba raddau mae'r gweithlu presennol yn gallu bod neu'n barod i fod yn fwy hyblyg wrth gyflawni. Rhaid ystyried fod y gwasanaethau hyn yn hanfodol i gefnogi unigolion i aros mor annibynnol â phosibl cyhyd ag y bo modd ac nad yw'n wasanaeth 'braf ei gael'.

Codwyd y cwestiwn ynghylch y posibilrwydd o reoleiddio cyfleoedd dydd a holodd rhai a fyddai safonau ffurfiol yn cynorthwyo i ysgogi newid a gwella ansawdd. Roedd cyfranogwyr yr adolygiad hefyd yn cwestiynu a fyddai rheoleiddio yn helpu i ddiogelu cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr rhag toriadau neu rhag gael eu tynnu'n ôl yn gyfan gwbl. Roeddent yn pryderu mai dyma'r gwasanaethau cyntaf i'w torri ar hyn o bryd pan fyddai toriadau'n cael eu gwneud i'r gyllideb oherwydd nad ydynt yn statudol.

## Gwasanaethau i bobl ag anableddau corfforol a synhwyraidd

**Galluogwyr trawsnewid**

Clywsom am sawl enghraifft o awdurdodau lleol yn gwneud camau pendant tuag at ailfeddwl am wasanaethau. Mae un awdurdod lleol, sy'n cydnabod bod angen adnewyddu'r modelau presennol, yn cwmpasu adolygiad o'i wasanaeth dydd gyda ffocws penodol ar ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. Yn ddiweddar mae wedi sefydlu grŵp sy'n cwmpasu adolygiad o wasanaethau dydd. Mae un arall yn datblygu lleoliaeth a model sy'n seiliedig ar asedau cymunedol fel rhan o ddull Byw'n Dda ehangach. Y syniad yma yw bod pobl yn byw mewn cymunedau a bod amrywiaeth o gyfleoedd yn bodoli o fewn ardaloedd penodol. Mae rhai meysydd yn cynnwys darparwyr Byw â Chymorth mewn ymdrechion o'r fath, gan ganolbwyntio ar helpu unigolion i gyflawni'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn 'fywyd da'. Mae partneriaeth â'r trydydd sector hefyd yn werthfawr iawn. O fewn y cyd-destun hwn o newid, mae'n bwysig nodi bod yn well gan rai unigolion ddiogelwch canolfan, hwb neu adeilad arall.

Mewn un rhanbarth, ychydig cyn dechrau'r pandemig, roedd nifer o awdurdodau lleol yn adolygu eu gwasanaethau cyfleoedd dydd, gan sylweddoli bod y gwasanaethau o bosibl yn sefydliadu pobl o fewn y gymuned. Roedd un o'r awdurdodau lleol hyn yn cysylltu eu gwasanaethau dydd â darpariaeth prydau cymunedol, gan ddarparu hyfforddiant a chyflogaeth. Yna fe wnaeth y pandemig orfodi symud i fodel hybrid. Cynyddodd y model hybrid atgyfeiriadau yn sylweddol. Mae gwasanaethau cyfleoedd dydd bellach yn cael eu cynnig yn sesiynol drwy gydol y dydd, gan gynnwys gyda'r nos. Mae'r awdurdod lleol bellach yn darparu cymysgedd o gyfleoedd dydd a gwasanaethau yn y gymuned, gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol, gan ddarparu cymysgedd o gefnogaeth, fel 1:1, a chefnogaeth cymheiriaid. Mae'r ymateb i'r newidiadau a wnaed wedi bod yn gadarnhaol.

Clywsom, pan ddechreuodd y pandemig, fod pobl yn addasu ac yn dod o hyd i ddewisiadau amgen i'r gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol. Nododd rhai pobl ag anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau brofiad cadarnhaol o DP a ddefnyddiwyd ganddynt i ariannu cyfleoedd

newydd i fyw'r bywydau maen nhw am eu byw.

Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn rhai ardaloedd i hyfforddi a chefnogi staff i feddwl yn wahanol a thu hwnt i'r pedair wal. Fodd bynnag, mae gwaddol o feddwl sefydliadol yn bodoli, a chlywsom y gall fod yn anodd ei newid.

Nodwyd bod comisiynu yn bwysig er mwyn galluogi trawsnewid. Hyrwyddwyd dull cyfannol o gomisiynu cymorth i wella bywydau unigolion, yn hytrach na chanolbwyntio ar ofal sesiynol mewn lleoliadau penodol, gan nifer o gyfranogwyr. Cydnabuwyd bod gan wasanaethau ffordd bell i fynd i gomisiynu ar gyfer canlyniadau yn hytrach na mewnbwn gwasanaethau, monitro perfformiad, diogelu a rheoleiddio. Roedd rhai yn teimlo y dylai asiantaethau hefyd fod yn cefnogi pobl i fod yn gomisiynwyr eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol neu opsiynau hunan-ariannu.

Roedd cyd-gynhyrchu yn cael ei ystyried yn allweddol i drawsnewid gwasanaethau. Mae angen i ymarferwyr roi cyfran o'r broses gwneud penderfyniadau i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, gan gynorthwyo pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i sbarduno'r newidiadau maen nhw eu hangen iddyn nhw eu hunain. Gall dulliau o'r fath effeithio ar newid hyd yn oed o fewn yr adnoddau presennol.

Mae gwasanaethau pob oed yn darparu cyfleoedd i osgoi'r angen i bobl bontio rhwng gwasanaethau ar adegau allweddol.

Cydnabuwyd y gallai dulliau cenedlaethol fod yn ddefnyddiol ar gyfer comisiynu, wrth ddarparu enghreifftiau, ond ni ddylai hyn fod yn rhy rhagnodol a rhaid iddo adlewyrchu angen lleol.

**Rhwystrau i drawsnewid**

Clywsom fod cynllunio gwasanaethau a chyfathrebu yn her, yn enwedig o ran sut mae gweithwyr proffesiynol yn ymgysylltu ac yn galluogi cyfranogiad pobl ag ystod o wahanol anghenion. Efallai o ganlyniad i heriau cyfathrebu, clywsom gan ofalwyr di-dâl a oedd yn poeni am newidiadau sy'n cael eu cyflwyno a'r effaith ar eu hanwyliaid yn defnyddio gwasanaethau.

Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod bod bwlch gwasanaeth yn bodoli ar gyfer pobl ifanc ac oedolion iau â nam corfforol a synhwyraidd, sy'n aml yn cael eu grwpio ag oedolion hŷn.

Mynegodd rhai pobl bryder y gall symud o ganolfannau dydd i gyfleusterau wedi'u lleoli mwy yn y gymuned fod yn ansefydlog. Awgrymwyd bod hyn yn fwy felly ymhlith oedolion hŷn a'r rhai oedd yn profi anableddau yn ddiweddarach mewn bywyd, oherwydd er enghraifft strôc. O ganlyniad, mae rhai unigolion wedi colli eu hyder ac yn ceisio ei ailadeiladu, disgrifiwyd bod mynd i le cyfarwydd ag eraill yn yr un sefyllfa yn gysur.

I'r rhai sydd ag anghenion cymhleth, o ran gofal personol/pegiau bwydo ac ati gall darparu gwasanaethau cymunedol yn y modd hwn hefyd fod yn fwy problemus.

Roedd rhai pobl yn pryderu am afreoleidd-dra o ran rheoleiddio a sut y gallai hyn effeithio ar ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er enghraifft, mynd o'r hwb yn gwneud gweithgareddau TG, nad ydynt yn cael rheoleiddio, i nofio sy'n cael ei reoleiddio. At hynny, ychwanegwyd nad yw toriad byr mewn carafán o dan 28 diwrnod yn cael ei reoleiddio, tra bod angen rheoleiddio arhosiad dros 28 diwrnod.

Nodwyd heriau trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a gall hyn greu rhwystr rhag cymryd rhan.

## Ymweliadau a chyfweliadau penodol i'r gwasanaeth

Yn dilyn ymateb cadarnhaol o'n galwad am dystiolaeth gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, trydydd sector a darparwyr preifat, trefnwyd cyfres o ymweliadau gwasanaeth. Nid oedd modd ymateb i bob cais; fodd bynnag, dewiswyd sampl i sicrhau lledaeniad daearyddol da a, lle bo modd, gwahanol fathau o wasanaeth. Fe wnaethom ymweld â nifer uwch o wasanaethau anabledd dysgu nag unrhyw grŵp cleient arall, gan fod nifer uwch o'r gwasanaethau hyn wedi ymateb i'r alwad dystiolaeth. Credwyd bod y gwasanaethau a ddewiswyd yn rhoi cipolwg amrywiol ar y mathau o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer y grŵp penodol hwn ledled Cymru.

Fe wnaethom gynnal cyfanswm o 18 ymweliad, a oedd yn cynnwys cymysgedd o ymweliadau

corfforol a chyfweliadau ar-lein. Roedd y rhain yn cynnwys 9 gwasanaeth anabledd dysgu, 2 brosiect pontio ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, 4 gwasanaeth i bobl hŷn, 2 wasanaeth gofalwyr di-dâl ac 1 gwasanaeth i bobl â nam corfforol .

Lle bo'n bosibl, roedd yr ymweliadau yn cynnwys y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y staff a'r rheolwyr, gan eu galluogi i fyfyrio ar y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers y pandemig a'u heffaith.

Darperir rhestr lawn o'r ymweliadau a gynhaliwyd yn Atodiad VI.Pwyntiau dysgu allweddol o ymweliadau â gwasanaethau a chyfweliadau

**Newid a datblygiad mewn gwasanaethau**

Roedd ein hymweliadau â gwasanaethau ledled Cymru yn darparu tystiolaeth bod y pandemig wedi arwain at newid sylweddol i bob grŵp o gleientiaid. Dywedodd llawer o randdeiliaid fod y gostyngiad mewn biwrocratiaeth a'r angen am ymatebion cyflym wrth i'r pandemig gydio, yn golygu eu bod nhw’n gallu gwneud newidiadau'n gyflym, bod yn greadigol ac edrych ar bethau'n wahanol.

Er enghraifft, mae gwasanaeth pontio a ddarperir gan awdurdod lleol bellach yn cynnig mynediad at gyfleoedd rhithwir a mannau awyr agored, nad oedd yn digwydd cyn y pandemig. Mae wedi gwneud i bobl archwilio'r mannau glas a gwyrdd yn yr ardal leol ac yn gwerthfawrogi'r buddion maen nhw’n eu cynnig.
Ar hyn o bryd, yn hytrach nag anfon pobl allan o'r sir, mae ffocws y gwasanaeth bellach yn ymwneud â chreu cyfleoedd lleol i bobl, eu cadw'n agosach at adref lle mae cysylltiadau cymdeithasol a pherthnasoedd pwysig yn bodoli ac y gellir eu hatgyfnerthu.

Mae gwasanaethau eraill, fel gwasanaeth dydd sy'n cael ei redeg yn breifat i bobl hŷn, wedi gweld y cyfle i newid fel datblygiad cadarnhaol. Mae cysylltiadau'r gwasanaeth â'r gymuned leol bellach yn llawer mwy, gan roi cipolwg i ddarpar ddefnyddwyr ar y gwasanaethau eraill sydd ar gael gan y sefydliad, gan gynnwys gofal preswyl a seibiant. Mae hyn wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth yn y gymuned leol o'r gwasanaethau a allai fod ar gael iddynt wrth iddynt dyfu'n hŷn a bod eu hanghenion yn newid. Gall person sy'n mynychu'r gwasanaeth dydd ar hyn o bryd ddod yn breswylydd yn y 'gwesty gyda chymorth' pan fydd yr amser yn iawn.

Roedd yn amlwg yn ystod un o'n hymweliadau sut roedd y pandemig wedi rhoi cyfle da i ehangu'r defnydd o gyflogaeth â chymorth i bobl ag anableddau dysgu, gyda thwf yn nifer y cyfleoedd gwaith oedd ar gael ledled y sir yn ystod y cyfnod pan oedd y pandemig ar ei fwyaf cyffredin. Roedd prosiectau a sefydlwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn canolbwyntio ar y rhai sy'n darparu cynhyrchiant incwm cynaliadwy o fewn yr economi leol, fel caffis, siopau anrhegion a gwasanaethau gwaith daear. Rydym ni’n deall bod hyn wedi arwain at arbedion sylweddol o tua £600k i'r awdurdod lleol ac, yn bwysicaf oll, wedi effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau i'r rhai sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Amlygodd rheolwr y gwasanaeth hwn bwysigrwydd sefydlu diwylliant lle roedd arweinwyr strategol yn ymddiried yng ngallu rheolwyr i allu meddwl y tu allan i'r bocs am yr hyn y gallai'r potensial fod o ran cefnogi pobl i mewn i waith. Roedd hyn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â phobl mewn cyflogaeth â chymorth i feddwl am ddyfodol y gwasanaeth, archwilio cyfleoedd ar gyfer ffrydiau cyllido ychwanegol a sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn yr awdurdod lleol, yn cydweithio i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r holl randdeiliaid.

Er bod tystiolaeth o welliannau i gyflogaeth â chymorth mewn nifer o'n hymweliadau, roedd wedi'i sefydlu i raddau amrywiol ledled y wlad yn amrywiol. Roedd ymdeimlad ymhlith comisiynwyr a darparwyr bod angen gwybod mwy am botensial dulliau penodol i greu mwy o gyfleoedd cyflogaeth â chymorth o fewn economïau lleol ledled Cymru.

Roedd un canolfan ddydd i oedolion hŷn yr ymwelwyd â hi wedi dechrau ehangu ei hystod o gefnogaeth gyda phresenoldeb cymunedol cynyddol cyn y pandemig. Mae dull entrepreneuraidd a fabwysiadwyd gan reolwr y gwasanaeth, gyda chefnogaeth y staff, wedi galluogi datblygu partneriaethau gydag eglwysi lleol, busnesau a chyfleusterau cymunedol eraill i wella'r cynnig.

Yn ystod y pandemig, cafodd perthnasoedd cefnogol o'r fath nid yn unig eu cynnal, ond cawsant eu cryfhau. Daeth yr ardd yn y ganolfan ddydd yn adnodd i'r gymuned a chaniatáu i ddefnyddwyr y gwasanaeth fynychu ar sail gyfyngedig. Parhaodd y banc bwyd a dillad a sefydlwyd cyn y pandemig ac er ei fod ar gau i ddefnyddwyr, parhaodd yr adnodd i weithredu fel hwb a gyrchwyd gan rannau eraill o'r gymuned.

Mae'r allgymorth hwn i'r gymuned wedi cynyddu presenoldeb y gwasanaeth yn sylweddol. Mae llawer o'i fentrau wedi ehangu ac mae cynlluniau pellach ar y gweill. Mae twf y gwasanaeth wedi bod yn gynyddrannol gydag opsiynau ychwanegol yn cael eu hychwanegu dros amser. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda llai o ddefnyddwyr dros y degawd diwethaf, gyda ffocws yn cael ei roi ar reoli pobl sydd â mwy o gymhlethdod.

Mae'r cyfle i newid hefyd wedi ailddatgan pwysigrwydd a gwerth cyd-gynhyrchu wrth gefnogi ac arwain datblygiad gwasanaethau. Enghraifft o hyn yw prosiect gofal seibiant gofalwyr di-dâl sy'n gweithredu ledled canolbarth Cymru. Yn ystod y pandemig, defnyddiwyd tair egwyddor allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth – gwrando ar ofalwyr, dim ond gwneud yr hyn rydych chi'n gyfforddus ag ef ac aros o fewn y gyfraith. Yng ngoleuni'r diwylliant cyd-gynhyrchiol a pherson-ganolog sy'n bodoli o fewn y sefydliad, mae gofalwyr di-dâl wedi parhau i gymryd rhan weithredol ac, mewn rhai achosion, maen nhw'n arwain ar newidiadau parhaus i'r gwasanaeth.

Nid yw pob defnyddiwr wedi gweld newidiadau i gyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant yn gadarnhaol. Er enghraifft, ar sawl achlysur clywsom enghreifftiau o sut, ers y pandemig, mae pobl bellach yn cael cynnig llai o oriau mewn cyferbyniad â'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol. Roedd y rhesymau dros hyn yn amrywiol ac yn cynnwys ailfodelu gwasanaeth bwriadol, diffyg darpariaeth trafnidiaeth, neu faterion staffio. Mae hyn yn amlwg yn achosi rhywfaint o anhawster i unigolion a'u teuluoedd pan fyddant wedi cael pum niwrnod yr wythnos, drwy'r dydd, yn hanesyddol. Fodd bynnag, roedd newidiadau o'r fath yn gweddu i unigolion eraill yn well, gan eu bod yn golygu llai o ryngweithio dros gyfnod byrrach, bob wythnos.

Cyn y pandemig, mewn gwasanaeth undydd i bobl hŷn, roedd cyfle i ddarparu gofal seibiant preswyl lle byddai pobl yn dod i'r gwasanaeth dydd, yn dod yn gyfarwydd â'r staff a darpariaeth y gwasanaeth mewn amgylchedd diogel, ac yna byddent yn aros yn y lleoliad gofal preswyl cyfagos. Ers y pandemig, mae hyn wedi digwydd llai a llai oherwydd bod y gwelyau a oedd yn welyau gofal seibiant bellach yn cael eu defnyddio i ymdopi gyda rhyddhau o ysbytai.

Pryder a godwyd gan rai o'r gwasanaethau yr ymwelwyd â nhw a gan y rhai wnaeth gymryd rhan yn y grwpiau ffocws, oedd, yn wahanol i feysydd gwasanaeth eraill, darparwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfle dydd ar sut i ddarparu parhad yn ystod y pandemig yn rhy hwyr. Un rheswm a roddwyd am hyn oedd y rhagdybiaeth bod gwasanaethau ar gau ac, felly, nid oedd angen arweiniad o'r fath. Roedd methiant i gydnabod pa mor bell aeth gwasanaethau i gynnal cyswllt a diwygio'r cynnig yn unol â chyfyngiadau.

Adroddodd staff gwasanaeth cyfle dydd i bobl ag anableddau dysgu cymhleth, sut y cafodd gwasanaethau eu hailgyflunio yn ystod y pandemig pan fu'n rhaid i'r ganolfan gau. Roedd staff yn darparu gofal cartref nad yw'n bersonol, a oedd yn cynnwys dosbarthu parseli bwyd, casglu presgripsiynau ac ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain. Croesawyd y gefnogaeth hon gan lawer o deuluoedd. Fodd bynnag, roedd rhai teuluoedd yn teimlo bod hyn yn ymwthiol neu'n ofni y byddai COVID-19 yn cael ei drosglwyddo i'r aelwyd. Lle mae hyn yn digwydd, cafodd ymweliadau eu cwtogi. Cafodd pobl hefyd eu cludo allan i gyfleusterau cymunedol lleol lle bo hynny'n bosibl, gan adeiladu ar gysylltiadau cymunedol presennol ac mae hyn wedi'i gynnal wrth i wasanaethau ailagor.

Roedd tystiolaeth hefyd i awgrymu bod mwy o gomisiynwyr a darparwyr yn meddwl yn ehangach am sut i ddarparu mynediad i ystod o wasanaethau cymorth yn seiliedig ar fodel pob oed a fyddai'n cynnwys cymysgedd o bobl o wahanol oedrannau a galluoedd, yn hytrach na dylunio gwasanaethau ar gyfer grŵp cleientiaid penodol. Siaradodd un awdurdod lleol am waith i sefydlu grŵp llywio cynhwysol ar gyfer datblygu eu hybiau cymunedol, gyda'r ffocws ar bobl o bob angen a gallu i wneud

y gorau o'r gofod ffisegol. Roedd y lens a ddefnyddiwyd yn canolbwyntio ar roi cyfle i integreiddio yn y gymuned gyda'r nod o gefnogi pobl i adeiladu perthnasoedd a chyfalaf cymdeithasol, yn wahanol i greu dibyniaeth ar ddarparu gwasanaethau a chymorth proffesiynol.

Mewn enghraifft arall o'r dull hwn, siaradodd un darparwr cyfleoedd dydd 'mewnol' ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, am bwysigrwydd sicrhau bod pobl roedden nhw’n gweithio gyda nhw yn gwybod am weithgareddau a oedd yn digwydd yn y gymuned, nad oedd yn cael eu rhedeg gan wasanaethau traddodiadol, a hwyluso cyfleoedd gwirioneddol i unigolion â diddordeb fynychu a chymryd rhan.

## Effaith y pandemig ar bobl sy'n manteisio ar gymorth a gofalwyr di-dâl

Nid oes amheuaeth bod llawer o bobl o bob oed a gallu sy’n manteisio ar gymorth yn dal i deimlo effaith negyddol o'r pandemig. Dywedodd nifer o ofalwyr y buom yn siarad â nhw yn ystod ein hymweliadau fod yr unigolion maen nhw’n eu cefnogi wedi profi unigrwydd, colli sgiliau cymdeithasol, llai o gymhelliant a bod eu ffitrwydd wedi cael ei amharu, hyd yn oed wrth iddynt ailgysylltu â gwasanaethau.

Nododd sawl darparwr cyfleoedd dydd i bobl ag anableddau dysgu lefelau uchel o bryder ymhlith defnyddwyr sy'n dychwelyd ar ôl y pandemig, gyda rhai unigolion yn dal i ofni dod i gysylltiad corfforol ag eraill ac yn nerfus am ymweld â mannau dan do. Mae hyn yn ddealladwy, oherwydd am sawl mis, dywedwyd wrth bobl nad oedd modd cysylltu'n gymdeithasol ag eraill yn bersonol. Felly, i rai, bydd yr angen i ddychwelyd i normau cymdeithasol yn anodd, os nad yn amhosibl a bydd angen i wasanaethau ymateb yn unol â hynny.

Heb os, bydd y materion hyn yn parhau i effeithio ar y canlyniadau y gall pobl eu cyflawni wrth fynychu cyfleoedd dydd, gwasanaeth gofal seibiant neu seibiant diwrnod, ac mae angen i ddarparwyr ystyried hyn wrth ystyried sut i ymateb i anghenion yr unigolyn. Mewn achos eithafol, collodd un person y gallu i gerdded, ac effeithiwyd ar bobl eraill o ran colli perthnasoedd a chysylltiadau, gyda mwy a mwy o ddibyniaeth yn cael ei roi ar ofalwyr teuluol a gofalwyr di-dâl .

Fodd bynnag, er bod achosion o bobl yn cael eu heffeithio'n negyddol gan effaith y pandemig, mae'n bwysig cydnabod, i rai unigolion, fod canlyniadau cadarnhaol. Mewn un enghraifft, clywsom sut y daeth un grŵp o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau i gymryd rhan mewn danfon cyfarpar diogelu personol. Roedd yr offer hwn yn cael ei storio yn un o'r canolfannau ac roedd y tîm a wnaeth ddarparu’r gwasanaeth cyfle dydd yn gweld hyn fel cyfle i unigolion fod yn rhan o'r gwasanaeth danfon. Arweiniodd hyn at enwebu dau berson ar gyfer gwobr Arwyr Gwirfoddol COVID ac fe wnaethant ennill y wobr, a fydd, heb os, yn cael effaith barhaol i gydnabod y cyfraniad a wnaethant.

Nid oes amheuaeth bod y baich ar ofalwyr di-dâl yn arbennig o drwm yn ystod y pandemig. Gyda gostyngiad parhaus yn y ddarpariaeth o fewn cyfleoedd dydd ac argaeledd cyfyngedig o ofal cartref, mae darpariaeth seibiant byr yn parhau i fod yn wasanaeth hanfodol i ofalwyr di-dâl. Mae angen parhau i gael gofal seibiant er mwyn sicrhau y gallant barhau i gefnogi eu hanwyliaid. Mewn un enghraifft, clywsom sut roedd un unigolyn wedi gofalu am ei gŵr ar ei phen ei hun am 2 flynedd. Cyn gynted ag y llwyddodd ei gŵr, a oedd yn byw gyda Parkinson's, i ymweld â gwasanaeth dydd unwaith eto, fe wnaeth hi fagu pwysau, ailgysylltu â ffrindiau a theimlai y gallai barhau i ofalu am ei gŵr yn hyderus hyd y gellir rhagweld.

Mewn un gwasanaeth dydd awdurdod lleol ar gyfer pobl ag anableddau corfforol, cynhaliwyd cymorth gan staff yn ystod y pandemig gyda chymorth yn cael ei ddarparu i fynychu apwyntiadau ac i fanteisio ar dechnoleg ddigidol i gysylltu â'u ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhithwir fel dosbarthiadau ymarfer corff. Nododd y gwasanaeth fod rhai pobl wedi dirywio'n gorfforol yn ystod y cyfnod clo ac yn ei chael hi'n anodd ail-symud wrth i wasanaethau wyneb yn wyneb gael eu hailagor.

Yn bwysig, yn y gwasanaeth hwn, roedd nifer o bobl yn myfyrio ar arwyddocâd cysylltedd cymdeithasol gweithgareddau grŵp. Dywedodd rhai unigolion oedd yn mynychu'r ganolfan ac a oedd wedi profi strôc yn ystod y pandemig, fod y gwasanaeth wedi achub eu bywydau yn llythrennol wrth iddynt wella. Fe wnaeth anobaith droi yn hwb o'r newydd pan ddaethon nhw o hyd i bwrpas trwy ddatblygu sgiliau a chyfeillgarwch ag eraill yn mynd trwy'r un profiad neu brofiad tebyg. Cefnogwyd cynnal cyfeillgarwch yn ystod y pandemig a hyd yn oed tra roedd gwasanaethau wedi'u hamharu ac, mewn rhai achosion tra roedd gwasanaethau ar gau, ni thorrwyd y perthnasoedd cryf.

## Cymorth person-ganolog

Yn ystod ein hymweliadau, rhoddwyd sawl enghraifft gan ymarferwyr ynghylch cymorth person-ganolog. Amlygwyd pwysigrwydd cael sgyrsiau gydag unigolion am y gweithgareddau y gwnaethant ddewis ymgysylltu â nhw yn ystod eu hamser yn eu cyfle dydd yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth, yn ogystal â'r ymgysylltiad gwell a'r ddeialog barhaus gydag aelodau'r teulu ers dechrau'r pandemig. Nodwyd yn gyffredinol bod aelodau'r teulu bellach yn llawer mwy rhagweithiol ynghylch eu hymgysylltiad â gwasanaethau.

Mewn un awdurdod lleol, adroddwyd bod cyfleoedd dydd i bobl hŷn bellach yn cael eu darparu'n agosach at adref. Felly, mae unigolion yn treulio llai o amser yn teithio ar drafnidiaeth gymunedol, ac mae gwell defnydd o wasanaethau lleol. Ar ben hynny, gall pobl dreulio mwy o amser yn cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol wrth ddefnyddio gwasanaeth, gan ddatblygu perthnasoedd ag eraill yn eu cymuned leol sydd â'r potensial i gyrraedd agweddau eraill o'u bywydau, i ffwrdd o leoliad dydd mwy ffurfiol.

Croesawyd y cyfle i adnewyddu a chadarnhau'r defnydd o offer cynllunio person-ganolog ac argaeledd ac ymwybyddiaeth o enghreifftiau, megis map 'Tyfu mewn perthnasoedd',[iii] gan rai rheolwyr sy'n gweithio'n bennaf yng nghyd-destun anabledd dysgu.

Roedd cynnwys darparwyr gwasanaethau mewn adolygiadau person-ganolog hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod anghenion a dymuniadau unigolyn yn cael eu diwallu'n briodol. Yn ystod ein hymweliadau, clywsom am enghreifftiau o ble roedd darparwyr wedi'u cynnwys yn adolygiadau pobl ac roedd hyn wedi bod yn brofiad cadarnhaol. Fodd bynnag, cawsom enghreifftiau hefyd lle nad oedd darparwyr wedi'u cynnwys.
Yn gyffredinol, teimlwyd, gan fod gan ddarparwyr gwasanaethau berthnasoedd llawn ymddiriedaeth â'r unigolion yr oedden nhw'n eu cefnogi ac ymhlith y rhai a oedd yn adnabod yr unigolyn orau, roedd eu cyfranogiad yn adolygiadau person-ganolog pobl fel arfer safonol, o fudd cynhenid.

## Cyd-gynhyrchu

Cynhaliwyd dau gyfweliad sy'n benodol i'r gwasanaeth gyda phrosiectau a oedd yn datblygu dulliau cyd-gynhyrchu. Roedd un yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau o bobl i gyfuno Taliadau Uniongyrchol (DP) i fodelu a chomisiynu gwasanaethau drostyn nhw eu hunain, gyda chefnogaeth eu teuluoedd.

Un enghraifft o'r prosiect oedd y gefnogaeth a gynigiwyd i grŵp o bobl a'u teuluoedd oedd yn anfodlon ar y cynnig o wasanaethau yn lleol. Roedd hyn naill ai oherwydd nad oedd eu gwasanaeth wedi ailagor yn dilyn codi cyfyngiadau'r pandemig, neu nad oedd natur y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn bodloni uchelgeisiau'r unigolion hynny a'u teuluoedd.

Mae'r rhaglen yn datblygu. Mae'n gweithio o fewn paramedrau'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol nad ydynt bob amser wedi cael eu croesawu gan awdurdodau lleol. Mae'n rhaid rheoli rhai risgiau, er enghraifft, cynnal gwasanaeth ag adnoddau gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol cyfun lle mae un cyfranogwr yn tynnu'n ôl. Er gwaethaf y risgiau hyn, mae'r dull gweithredu yn caniatáu i bobl fod yn greadigol wrth ddefnyddio eu Taliadau Uniongyrchol a grymuso pobl i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra'n benodol i ddiwallu angen y cytunwyd arno.

Roedd y prosiect arall sy'n gweithio o fewn un awdurdod lleol yn ceisio ehangu a gwella'r defnydd o ddulliau cyd-gynhyrchu. Yn ganolog i'r prosiect oedd pwysigrwydd naratifau'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth, pwysigrwydd dysgu o'r broses a sut y gall perthnasoedd a chysylltiadau rhwng y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei ddarparu wella profiad pobl. Dangosodd y gwaith yr angen i newid meddylfryd y gwasanaeth, gan symud o gael ei 'wneud i' a defnyddio ymarfer myfyriol. Roedd y dull yn canolbwyntio llai ar natur gweithgareddau a gynhaliwyd o fewn gwasanaethau cyfle dydd, a mwy ar bwysigrwydd sgyrsiau a myfyrio ar brofiadau o weithgareddau.

Fe wnaeth y prosiect gydnabod y gall dull sydd wir wedi’i gyd-gynhyrchu fod yn frawychus i'r bobl hynny dan sylw ac mae angen llawer iawn o feddwl, myfyrio ac addasu iddo gael ei ymgorffori'n llawn. Nid yw'r broses yn syml, ond gall pobl ddysgu gyda'i gilydd wrth iddynt symud ymlaen.

Roedd un profiad a ddefnyddiwyd i ddangos y ffordd y gall pobl ddysgu, yn ymwneud â 'thaith gerdded grŵp' wedi'i drefnu ar gyfer nifer o bobl ag anableddau dysgu. Yn ystod y daith aeth y grŵp ar goll. Yna fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'w ffordd yn ôl i le roedden nhw’n ei adnabod er mwyn cwblhau'r daith.
Roedd y broses o ddod o hyd i'w ffordd adref yn bwysicach na mynd ar y daith gerdded. Roedd y profiad yn caniatáu i'r holl gyfranogwyr, y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff, chwarae rhan gyfartal wrth ddod o hyd i'r ffordd. Mae'r enghraifft hon nid yn unig yn enghraifft o brofiad a rennir ond mae'n gweithredu fel trosiad ar gyfer cymhwyso'r dull cyd-gynhyrchu yn fwy cyffredinol.

### Ailfeddwl am gomisiynu

Dywedodd awdurdodau lleol wrthym ni sut yr oedden nhw wedi gweithio mewn partneriaeth agosach gyda’r naill a’r llall a gyda'r trydydd sector yn ystod y pandemig, ac roedd hyn wedi parhau ar ôl codi'r cyfyngiadau. Dywedir bod hyn wedi gwella perthnasoedd rhwng yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â darparu cymorth i bobl fregus.

Yn ein sgwrs ag un darparwr allanol gwasanaeth dydd ar gyfer anableddau dysgu, fe wnaethom ni ddysgu, os nad yw person yn mynychu ei leoliad wedi'i gynllunio heb rybudd, nad yw'n gallu gwneud cais am y ffi lleoliad dydd er bod costau sefydlog, fel staffio a rhentu, yn aros yr un fath. Nid oedd hyn yn wir am wasanaethau a ddarperir yn fewnol, gan nad oedd cyllidebau yn cael eu heffeithio pan nad oedd pobl yn gallu mynd i sesiwn ar fyr rybudd. Mynegodd y darparwr bryder bod y trefniant hwn yn cael effaith ariannol ar gynaliadwyedd eu sefydliad, ac o ystyried y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau, roedd rheolwyr yn gorfod gwneud dewisiadau ynghylch p’un a allent dderbyn cyflog o fis i fis. Dylid ystyried goblygiadau trefniadau cytundebol o'r fath yn ofalus. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r arfer hwn yn cael ei gymhwyso gan bob awdurdod lleol.

Serch hynny, roedd y penderfyniadau hyn yn gosod darparwyr mewn sefyllfaoedd lle'r oeddent yn gorfod ystyried ffyrdd eraill o gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau y gellid cynnal gwasanaethau sefydledig a gwerthfawr. Mewn prosiectau sy’n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, roedd y newidiadau hyn yn arbennig o heriol, yn enwedig pan ffurfiwyd perthnasoedd gwaith cryf rhwng unigolion a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau a'r gweithlu.

Mae cyfle yma i gomisiynwyr a darparwyr ailystyried trefniadau comisiynu, ar ôl y pandemig. Bydd hyn yn sicrhau y gall sefydliadau barhau i ddiwallu anghenion yr unigolion maen nhw’n eu cefnogi mewn ffordd sy'n sicrhau dewis a rheolaeth i'r unigolyn, ond hefyd cynaliadwyedd darpariaeth yn y dyfodol.

Gellid datrys materion o'r fath drwy drefniadau ariannol mwy cefnogol a hyblyg rhwng darparwyr a chomisiynwyr. Fodd bynnag, mae cyfle hefyd am weithio mwy cydgysylltiedig o ran gwybodaeth am ffrydiau cyllido eraill a manteisio ar y rhain. Er enghraifft, cafodd cyllid Mynediad at Waith y gall pobl o oedran gweithio ei ddefnyddio, ei gydnabod fel cyfle i ddatblygu gwasanaethau mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru.

Fel yr amlygodd un comisiynydd, wrth ystyried sut y byddai gwasanaethau'n esblygu ar ôl y pandemig, gallai fod angen gallu rhedeg gwasanaethau presennol a gwasanaethau newydd ochr yn ochr. Byddai hyn yn galluogi sefydlu modelau newydd cyn datgomisiynu gwasanaeth presennol a darparu ar gyfer y

rhai sy’n cael eu heffeithio’n uniongyrchol, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau, i ddeall yn well pam a sut y bydd eu bywydau yn cael eu heffeithio wrth i'r broses newid fynd yn ei blaen.

### Rheoliad

Amlygwyd mater rheoleiddio yn ystod nifer o sgyrsiau a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad, gyda rhai cyfranogwyr yn mynegi'r farn bod cymhlethdod anghenion a gyflwynwyd gan unigolion yn cyrchu gwasanaethau dydd a gofal seibiant yn cyfiawnhau'r angen am ryw fath o reoleiddio.

Roedd rhai o'r rhain yn cwestiynu sut roedd y gefnogaeth yr oedden nhw’n ei darparu mewn lleoliad cyfle dydd yn wahanol i gefnogi a allai gael ei ddarparu i unigolyn gartref, a oedd yn rhan o wasanaeth a reoleiddir. At hynny, mynegwyd y farn bod rhai agweddau ar ofal personol a ddarperir fel rhan o'r gwasanaethau hyn yn ymwthiol eu natur ac, yn hanesyddol, wedi cael eu darparu gan wasanaethau gofal iechyd. Gallai hyn gryfhau'r achos dros graffu a sicrwydd gwell y gellid eu darparu drwy reoleiddio.

Fodd bynnag, yn yr un modd tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at y risg y byddai rheoleiddio gwasanaethau cyfleoedd dydd yn cyfyngu ar botensial yr hyn y gallai rhai unigolion ei gyflawni. Er nad yw gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio mewn ystyr gofal traddodiadol, mae'r gwasanaethau mwy blaengar yn gorfod delio â goblygiadau rheoleiddio bob dydd, er enghraifft, rheoleiddio iechyd a diogelwch, hylendid bwyd a chyflogaeth.

### Defnyddio Technoleg Ddigidol

Gwelir mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol mewn ymateb i'r pandemig yn gyffredinol fel datblygiad cadarnhaol. Nododd llawer o gyfranogwyr ar draws gwasanaethau fanteision ei dechnoleg o ran gwella cysylltiadau â theuluoedd ac, mewn rhai achosion, cael ei ystyried yn rhywbeth sydd wedi 'achub bywyd' yn ystod cyfnodau y cyfnod clo.

Mae technoleg yn chwarae rhan bwysig mewn canolfan sy'n darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu dwys ac anghenion lluosog. Mae adnoddau o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi galluogi darparu technoleg o'r radd flaenaf i ysgogi a darparu cyfleusterau rhyngweithiol. Mae'r gwasanaeth yn gallu darparu ystod o wasanaethau cymorth, gan ddiwallu anghenion llawer a allai fod angen eu lleoli y tu allan i'r sir fel arall. Yn ystod y pandemig, roedd y dechnoleg gyfathrebu ddigidol a ddefnyddiwyd gan ddarparwyr gwasanaethau, yn caniatáu parhad darpariaeth trwy gysylltedd rhithwir.

Rhoddwyd sawl enghraifft yn ystod ein hymweliadau o ble mae technoleg fideo-gynadledda, fel Zoom, yn dal i gael ei defnyddio i gadw pobl mewn cysylltiad y tu allan i oriau'r dydd, pan na fyddai gwasanaethau traddodiadol fel arfer yn rhedeg. Adroddodd un prosiect sut mae eu haelodau a’u teuluoedd yn dal i fynychu eu eu noson ffilmiau wythnosol ar y Sul yn rheolaidd. Rhoddodd prosiect arall enghraifft lle roedd cyfarfod Zoom rhwng dau grŵp ar gyfer pobl hŷn wedi ailgysylltu unigolion nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad ers amser maith ac fe’u cefnogwyd wedi hynny i gwrdd wyneb yn wyneb.

Mae technoleg hefyd yn cyflwyno gwell cyfleoedd ar gyfer adolygiadau person-ganolog lle na all cyfranogwyr fod gyda'i gilydd yn gorfforol. Er bod hyn wedi'i amlygu mewn nifer cyfyngedig o wasanaethau yr ymwelwyd â nhw, ac mewn perthynas â gwasanaethau anabledd dysgu yn benodol, gellid gwireddu buddiannau yn ehangach .

Siaradodd cyfranogwyr hefyd am sut roedd llwyfannau a rhaglenni digidol, fel grwpiau WhatsApp, wedi bod yn 'achubwr' yn ystod y pandemig, wrth ganiatáu iddynt gyfathrebu'n fwy effeithiol â staff nad oedd, cyn y pandemig, ac weithiau oherwydd natur eu gwaith, wedi cael cyfeiriad e-bost gwaith.

### Gweithlu

Yn ystod ein hymweliadau, codwyd nifer o faterion ynghylch materion gweithlu. Siaradodd llawer o ddarparwyr am hyblygrwydd eu staff yn ystod y pandemig, a oedd yn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu darparu ymateb i'r defnyddwyr mwyaf bregus. Fodd bynnag, wrth i wasanaethau symud tuag at ffyrdd newydd o weithio drwy adeiladu ar y datblygiadau hyn, bu heriau wrth i rai staff wrthsefyll y newid i ffyrdd eraill o weithio.

Yn yr un modd â phob rhan o'r sector, mae heriau recriwtio yn parhau, ac, mewn rhai achosion, mae hyn yn effeithio ar allu gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth sydd wir yn berson-ganolog oherwydd lefelau staffio annigonol.

Mae hyn hefyd yn cael ei effeithio gan y lefelau o ofal personol sydd ei angen ar unigolion a'r amser a dreulir yn cefnogi hyn. Nododd dadansoddiad o amser staff mewn un gwasanaeth fod gweithwyr cymorth yn treulio hyd at 9 awr yr wythnos ar ofal personol, sy'n cyfateb i 25% o'u horiau contract.

### Cludiant

O ran cael pobl i wasanaethau ac oddi yno, amlygwyd trafnidiaeth dro ar ôl tro fel rhwystr presennol. Er y byddai pobl heb gludiant yn cael eu casglu a'u gollwng ar ddechrau a diwedd y dydd mewn bws mini, mae'r ffyrdd mae rhai gwasanaethau bellach wedi'u ffurfweddu, gyda phobl yn mynd i sesiynau byrrach ar sail hyblyg, yn golygu bod defnyddio trafnidiaeth a rennir yn anghynaladwy o sail staffio, logisteg a gwerth am arian.

O ganlyniad, nid yw rhai gwasanaethau bellach yn darparu cludiant, sy'n rhwystr sylweddol i bobl allu manteisio wasanaethau maen nhw eu hangen. Dywedodd un rheolwr gwasanaeth dydd nad oedd modd i un unigolyn fynychu, er gwaethaf asesiad yn nodi ei fod angen y gwasanaeth, oherwydd nad oedd modd cael y person i leoliad y gwasanaeth ac felly, nid oedd yn gallu diwallu anghenion y person.

Gellid ystyried defnyddio Taliadau Annibyniaeth Personol a lwfans symudedd i fynd i'r afael â'r angen hwn. Mae gan rai teuluoedd gerbydau Motability ond nid ydynt yn eu defnyddio fel mater o drefn i gludo aelodau o'r teulu i wasanaethau. Codwyd hefyd ddiffyg argaeledd tacsis gyda mynediad i gadeiriau olwyn, gyda thystiolaeth anecdotaidd mewn un lleoliad gwledig mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd bod yr holl dacsis hygyrch wedi'u comisiynu i'w defnyddio gan y GIG.

## Enghreifftiau o arfer arloesol

Ar ein hymweliadau ledled Cymru, roedd sawl enghraifft o arfer arloesol yr oedd tîm y prosiect yn ystyried eu bod yn briodol i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n cael eu cefnogi a'r rhai sy'n gweithio o fewn gwasanaethau.

Roedd y gallu i recriwtio staff lletygarwch wedi bod yn heriol i Age Connects Morgannwg, sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn. Mae gan eu hwb cymunedol, Cyswllt Cynon, gaffi ar y safle, ac effeithiodd yr anhawster hwn ar argaeledd prydau poeth â chymhorthdal i bobl hŷn ac aelodau eraill o'r gymuned. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gydleoli gydag amrywiaeth o wasanaethau pob oed, fel gwasanaeth cwnsela, meddygfa a chanolfan 'aros a chwarae' i'r teulu. Felly, aethpwyd ar drywydd y cyfle i ddarparu cyflogaeth i bobl oedd yn manteisio ar wasanaethau eraill yn yr hwb yn rhagweithiol. Mae'r amgylchedd cefnogol wedi golygu bod unigolion, na allai fod gweithio fel arall, wedi llwyddo i gynnal eu cyflogaeth ac mae'r caffi wedi gallu parhau i ddarparu adnodd hanfodol i'r gymuned leol.

Yn ystod y pandemig, fe wnaeth gwasanaethau dydd i bobl hŷn yn Sir Benfro ddefnyddio Zoom i ailgysylltu unigolion a oedd, oherwydd bregusrwydd, wedi colli cysylltiad. Wrth i'r rheoliadau gael eu codi, roedd rhai o'r unigolion hyn yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb. Mae'r cyfle hwn ond wedi

bod yn bosibl gyda chyflwyno technoleg fideo-gynadledda, na fyddai wedi digwydd oni bai am y pandemig, wnaeth orfodi rhoi gweithio rhithwir ar waith.

Mae'r gwasanaeth pontio Camu 'Mlaen ar gyfer pobl ifanc sy'n gweithredu yng Ngheredigion wedi'i sefydlu i ddarparu gweithgareddau 52 wythnos y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwirfoddoli, sgiliau byw'n annibynnol a phedair colofn o ddysgu. Mae'r prosiect hefyd yn edrych ar gyflogadwyedd a bod yn unedig ac yn gysylltiedig yn gymdeithasol. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y bobl ifanc a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth iddynt bontio o'r ysgol, sydd fel arfer yn darparu cymorth yn ystod y tymor yn unig.

Mae'r gwasanaeth Anabledd Dysgu yn Nhorfaen wedi bod yn profi teclyn cynllunio digidol person-ganolog, o'r enw 'ForMi' (Here2there gynt). Mae'r ap digidol yn caniatáu i unigolion gadw cofnod amser real o nodau a gweithgareddau ac ymgysylltu â'u 'cylch cymorth' i rannu cynnydd a derbyn adborth. Cafodd tîm y prosiect arddangosiad o'r cais gan berson sy'n defnyddio ForMi. Roedd yn amlwg iawn bod yr unigolyn wedi elwa, yn benodol wrth gymryd rhan mewn galwadau fideo wythnosol gyda'i weithiwr allweddol i sicrhau bod ei gynllun cymorth a'i ddefnydd yn cael ei ddiweddaru.

Mae technoleg wedi galluogi pobl i gyfathrebu ar sail unigol a grŵp ac mae ystod o weithgareddau wedi'u cyflwyno drwy'r cyfrwng hwn. Yn benodol, mae'r Ap Mewnwelediad arobryn wedi caniatáu gweithio'n agosach rhwng comisiynwyr a sefydliadau'r trydydd sector.

Er mwyn gwreiddio diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, rhannodd y Prosiect Gofalwyr, Credu, ym Mhowys, eu profiadau o weithio gyda grŵp Hyrwyddwyr Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Cymru a chynhaliwyd hyfforddiant 'sgwrs gydweithredol' gyda Rhoda Emlyn-Jones a Mark John Williams, sydd ill dau yn hyfforddwyr cydnabyddedig mewn darparu seiliedig ar ganlyniadau ar draws y sector yng Nghymru. O ganlyniad, mae nifer o ganlyniadau unigryw, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u cyflawni trwy ddigwyddiadau fel y Bubblehub a Phenwythnosau Credu Mawr, sef digwyddiadau tebyg i ŵyl i ofalwyr di-dâl a'r bobl maen nhw’n eu cefnogi.

Mae gwasanaeth Anabledd Dysgu Sir Benfro wedi defnyddio'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig fel cyfle i ehangu eu cynnig cyflogaeth â chymorth i bobl, trwy gysylltu â chyfarwyddiaethau awdurdodau lleol eraill. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio'n agos gyda'r adran Diwylliant a Threftadaeth i ddarparu cyfleoedd gwaith o fewn ystod o safleoedd twristiaeth a threftadaeth ar draws y sir nad oeddent, cyn y pandemig, ar gael.

Yn gynnar yn y pandemig, datblygodd y darparwr gwasanaeth anabledd dysgu, Mencap Canolbarth Cymru, eu dull '3 R'. Mae hyn yn cyfateb i (beth ydyn ni yn ei gadw) *Retain*, (beth allem ni ei adfer) *Restore* a (beth allwn ni ei ail-ddyfeisio) *Re-invent*? Fe wnaethant gyflwyno hyn ar y cyd â staff a defnyddwyr y gwasanaeth, gan sicrhau bod pawb a gymerodd ran yn deall pam fod angen newidiadau a beth fyddent yn ei olygu yn ymarferol. Un foment nodedig yn ystod ein hymweliad oedd pan alwodd defnyddiwr gwasanaeth i mewn, trwy alwad fideo (a fu'n ganlyniad dysgu penodol yn ystod y pandemig), gan ei bod yn sâl gyda COVID-19. Roedd yr ymdeimlad o berthyn, cwmnïaeth a chyfeillgarwch yn amlwg, yn ogystal â natur annibynnol yr alwad a sut roedd y person yn cyfarch pawb trwy'r dechnoleg.

Mae Mencap Môn yn wasanaeth cymorth i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yng nghanol Llangefni ar Ynys Môn. Mae ei leoliad canolog yn ceisio sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cysylltu â'u cymuned. Mae'r adeilad yn gartref i nifer o fusnesau bach, sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth â chymorth sy'n galluogi pobl i wasanaethu'r gymuned ehangach a chyfrannu at yr economi leol.

Ar y dyddiau pan nad yw'r gwasanaeth rhan-amser ar agor, defnyddir yr hwb gan grwpiau eraill fel plant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu llyfrgell deganau i blant, gan roi cyfle i rieni ddarparu teganau i'w plant sy'n ddrud yn gyffredinol heb orfod eu prynu. Mae'r ganolfan hefyd wedi'i nodi fel lle cynnes a phantri, gan annog aelodau eraill o'r gymuned a allai fod yn agored i niwed, i gysylltu a derbyn cefnogaeth.

## Dyfodol cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr

Gallai llawer o'r materion a nodwyd yn yr adolygiad gael eu datrys trwy wella'r broses o gomisiynu'r gwasanaethau hyn.

Dylai gwasanaethau effeithiol fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ond mae angen i'r dystiolaeth a ddefnyddir i fodelu ac ailfodelu gwasanaethau fod yn ddigon soffistigedig i gynllunio gwasanaethau sy'n effeithlon, effeithiol, grymusol a theg.

Roedd yr adolygiad yn ceisio data ansoddol ar argaeledd gwasanaethau fel rhan o'r holiadur a ddarparwyd i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau. Er bod myfyrdodau rhai a gwblhaodd yr holiadur yn awgrymu bod darparu'r data yn y ffurf y gofynnwyd amdani yn heriol, roedd yn amlwg nad yw data meintiol ledled Cymru yn cael ei adrodd yn rheolaidd ac yn gyson. Dywedodd llawer o gyfranogwyr pan fydd data'n cael ei gasglu, efallai na fydd y metrigau a ddefnyddir yn nodi gwerth y gwasanaethau a ddarparwyd.

Yr enghraifft gliriaf o'r diffyg hwn yw'r data rhifol a gesglir yn ymwneud â phresenoldeb. Dywedwyd bod gwerth gwasanaethau yn ymwneud â faint o bobl wnaeth fynychu, pa mor aml ac am ba hyd. Nid yw'r dull hwn yn cydnabod gwerth cyflawni'r canlyniadau gan y rhai sy'n mynychu neu'r costau ychwanegol fesul person sy'n ymwneud â chymhlethdod anghenion unigolyn. O ganlyniad, mae'r potensial yn bodoli i wasanaethau ddarparu mwy o'r un gwasanaeth i fwy o bobl. Y risg yw yma y gallai gwasanaethau gael eu cymell i ganolbwyntio ar yr achosion lleiaf heriol yn hytrach na thargedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, a’r rhai y gallai cymhlethdod eu gofal gynyddu costau'r uned a ysgwyddir gan y gwasanaeth a cheisio teilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigol.

Nodwyd amrywiad rhwng darpariaeth fewnol awdurdodau lleol a'r rhai a ddarparwyd gan y sector annibynnol o ran y wobr am ddarparu gwasanaethau. Mewn darpariaeth annibynnol, mae talu am wasanaethau a ddarperir yn aml yn seiliedig ar nifer y mynychwyr ar ddiwrnod penodol. Os na fydd rhywun yn mynychu am unrhyw reswm mae'r gwasanaeth yn colli'r incwm hwn. O ganlyniad, y metrig sy'n bwysig i wasanaeth o'r fath yw presenoldeb yn hytrach na'r canlyniadau a enillwyd. Gall y dull hwn effeithio ar hyfywedd rhai gwasanaethau pan fydd presenoldeb yn gostwng a'u gallu i fod yn hyblyg o ran galluogi pobl i symud ymlaen i ddechrau defnyddio gwasanaethau eraill wedi'u halinio.

Mae llawer o enghreifftiau o ddiwygio gwasanaethau a welwyd wedi deillio o newidiadau graddol, esblygiadol, yn hytrach na diwygio chwyldroadol. Mae hyn wedi galluogi newid graddol i'r cynnig o wasanaeth gydag elfennau gwasanaeth ychwanegol yn cael eu hychwanegu trwy newid perthynas â chymunedau lleol ac asiantaethau partner.

Mae diwygiad esblygiadol yn debygol o fod yn llai dadleuol na newid chwyldroadol. Fodd bynnag, lle nad yw gwasanaethau'n gynaliadwy yn eu ffurf bresennol mwyach neu'n is-safonol neu ddim cystal ag y gallent fod, efallai y bydd angen sicrhau newid cyflym a mawr. Lle mae hyn yn wir, rhaid rheoli proses o'r fath yn ofalus ac yn sensitif, gan groesawu egwyddorion cyd-gynhyrchu.

Mae datblygu modelau newydd wrth wasanaethu defnyddwyr presennol yn cyflwyno heriau sy'n gysylltiedig â rhedeg gwasanaethau'n gyfochrog. Mae gan hyn oblygiadau amlwg o ran capasiti ac yn ariannol.

Mae darparu cyfleoedd dydd, gwasanaethau gofal seibiant a seibiant byr yn destun diddordeb gwleidyddol sylweddol ar lefelau cenedlaethol a lleol. Mae hyn o ran 'gwleidyddiaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cyffredinol' sy'n deillio o ddiddordeb cyhoeddus a'r cyfryngau a chyfranogiad gweithredol gwleidyddion etholedig wrth gynllunio a gwerthuso'r gwasanaethau hyn.

Gall diwygio a datgomisiynu gwasanaethau fod yn wleidyddol yn nau ystyr y gair. Gall unigolion, eu teuluoedd, y gweithlu a'r gymuned ehangach i gyd fod yn bryderus pan fydd gwasanaethau'n destun newid.

Mae'r sensitifrwydd hyn yn ddealladwy, gan fod gan lawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau anghenion sylweddol a gallai eu teuluoedd sy'n eu cefnogi fod angen y gwasanaethau hyn i gynnal y rolau gofalu maen nhw’n eu cyflawni.

Mae pobl yn aml yn amheus o newid ac efallai y byddant yn credu bod unrhyw newidiadau'n ymwneud ag arbedion cost yn hytrach na gwelliannau i wasanaethau. O ystyried effaith llymder a'r hinsawdd ariannol bresennol sy'n wynebu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd ac awdurdodau lleol yn gyffredinol, mae'r amheuon hyn yn ddealladwy.

Fodd bynnag, ni ddylai'r canfyddiadau hyn atal gwasanaethau rhag diwygio a cheisio darparu'r gwasanaethau mwyaf priodol posibl. Yn hytrach, mae angen cyfleu unrhyw gynlluniau yn glir ac yn dryloyw i'r holl randdeiliaid er mwyn deall yn llawn y gwelliannau arfaethedig, y rhesymau drostynt a'r ffordd y byddant yn cael eu cyflawni.

Gall defnyddio dulliau person-ganolog a chyd-gynhyrchu, ac ymgysylltu â'r unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau, helpu i gael gwybod beth yw natur yr hyn maen nhw am ei brofi a'r canlyniadau maen nhw am eu gwireddu. Bydd y dulliau hyn yn llywio'r ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer pob unigolyn a thrwy grynhoi'r wybodaeth hon yn y modd mae angen i'r gwasanaeth ddatblygu yn ei gyfanrwydd i ddiwallu'r anghenion hyn.

Dylai'r gweithlu hefyd gymryd rhan cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig. Bydd hyn yn eu galluogi i baratoi ar gyfer addasiadau i'w hwythnos waith, patrymau sifftiau, amgylcheddau gwaith. Bydd hefyd yn eu paratoi i ddatblygu sgiliau newydd neu wella'r rhai sydd ganddynt, er mwyn diwallu’r her sy'n ofynnol o ran gwella gwasanaethau.

Mae teuluoedd ac yn enwedig gofalwyr di-dâl, hefyd angen cael gwybod am newid i wasanaeth er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau sy'n darparu safbwynt gofalwr. Mae angen iddynt gael eglurder ynghylch pam mae angen newid y gwasanaeth a sut y gellir parhau i ddiwallu eu hanghenion. Mae angen eu galluogi i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau, deall yn llawn yr amserlenni y bydd newid yn digwydd ynddynt a'r cynlluniau i ymateb i'r heriau logistaidd sy'n deillio o'r newid hwnnw .

Mae angen i'r cyhoedd gymryd rhan er mwyn gwella mynediad at adnoddau cymunedol. Efallai y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol gwneud addasiadau er mwyn galluogi defnyddio cyfleusterau a allai effeithio ar eraill sy'n eu defnyddio. Er mwyn sicrhau yn y ffordd orau bod pobl yn cael eu croesawu i gyfleusterau cymunedol, gall paratoi, ymgynghori ac ymgysylltu hwyluso'r potensial ar gyfer anawsterau sy'n codi wrth i wasanaethau symud o wasanaethau sy'n seiliedig ar le i drefniadau integredig mwy cymunedol.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn yr adolygiad yn credu y byddai canllawiau cenedlaethol ar ddarparu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant byr yn ddefnyddiol. Roedd eraill yn teimlo y gallai hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol megis gor-ragnodi gwasanaethau a allai gyfyngu ar ymreolaeth a ffit lleol. Gellid cyflwyno cronfa ganolog i gefnogi trawsnewid ac arloesi fel rhan o’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, neu yn ychwanegol ati, gan alluogi gwasanaethau i gynnal newid a chyflwyno modelau newydd ochr yn ochr â modelau gwasanaeth mwy traddodiadol. Gallai hyn alluogi darparu cynnig newydd i fynychwyr iau neu eraill a allai fod am ddefnyddio mwy o gyfleusterau cymunedol lleol a'r rhai sy'n cynnig mwy o botensial ar gyfer cyflogaeth â thâl. Byddai gwerth amlwg hefyd i ffrydiau ariannu Cyfalaf pwrpasol.

Amlygodd yr adolygiad hefyd fod darparu cyfleoedd dydd, gwasanaeth gofal seibiant, a gwasanaeth seibiant byr yn aml yn cael ei ystyried yn fusnes gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, gyda'u partneriaid. Mae'r dull hwn yn methu â chydnabod manteision ymgysylltu â darpariaeth ehangach yr awdurdod lleol, megis addysg a dysgu gydol oes, gwasanaethau hamdden, llyfrgell ac adloniant, gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy, ochr yn ochr â chymunedau ffydd, gwasanaethau cyflogaeth a chyflogwyr a busnesau lleol. Byddai cynnwys yr holl asiantaethau hyn, pe baent yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau,

yn galluogi mwy o gysylltedd â chymunedau lleol, y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau lleol a'r defnydd effeithlon o arian cyhoeddus.

Mae'r dull hwn yn gofyn am gydweithio effeithiol o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau. Byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am ddatblygu dulliau partneriaeth gyda chyfarwyddiaethau ac adrannau eraill o fewn yr awdurdod lleol, yn ogystal â pherthnasoedd ac, o bosibl contractau, gydag asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau yn ei ardal. Mae'r rhain yn dasgau heriol, ond mae'r buddion posibl yn wych a byddent o bosibl yn darparu mwy o ddewis a modelau gwasanaeth llawer mwy integredig, a fydd yn parhau i wneud gwahaniaeth i fywydau llawer sy'n byw mewn cymunedau ledled Cymru.

## Cyfeirnodau

[i] Rhaglen Gwella Niwro-amrywiaeth, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2023. https://www.gov.wales/neurodivergence-improvement-programme-engagement-events-november-2022-htm l (fel y cyrchwyd ar 27 Gorffennaf 2023)

[ii] Carers UK, *State of Caring 2022: A snapshot of unpaid care in the UK*, November 2022. https://www.carersuk.org/media/vgrlxkcs/soc22_final_web.pdf (cyrchwyd ar 5 Mai 2023).

[iii] Stephen Stirk and Helen Sanderson, *Creating person-centred organisations. Strategies and tools for managing change in health, social care and the voluntary sector, 2013.*